




NETHERWOOD SUSTAINABLE FUTURES
Sustainable Governance Policy Practice



Summit to Sea/O'r Mynydd i'r Môr (OMIM)

**ADRODDIAD TYMOR CANOLIG ANNIBYNNOL
O'R PROSIECT O'R MYNYDD I'R MÔR
2017-20**



Hydref 2020

Awduron: Dr. Alan Netherwood, Dafydd Thomas
Paul Renfro a Jetske Germing

Comisiynwyd gan Bartneriaid O'r Mynydd i'r Môr
Ariannwyd gan Coed Cadw, WWF a Rewilding Britain

1. CEFNDIR

- 1.1 Ym mis Ionawr 2020, cafodd consortiwm gan gynnwys Fforwm Arfordirol Sir Benfro, Netherwood Sustainable Futures a Well-being Planner ei gomisiynu gan brosiect O'r Mynydd i'r Môr i gynnal adolygiad interim o'r prosiect ar gyfer y cyfnod rhwng 2017-20
- 1.2 Dechreuodd Prosiect Summit to Sea O'r Mynydd i'r Môr (OMIM) yn 2017, wrth i ystod o randdeiliaid ddod at ei gilydd i edrych ar y posibiladau ar gyfer prosiect adfer ecolegol ar raddfa eang yn ardal Pumlumon. O ganlyniad, cyflwynwyd cais gan bartneriaeth dan arweiniad Rewilding Britain am gyllid gan yr Endangered Landscapes Programme (ELP) i sefydlu ecosystem ddynamig ac ardal llawn natur o ben Pumlumon - copa uchaf canolbarth Cymru - i lawr drwy ddyffrynnoedd coediog i Aber Afon Dyfi ac allan i Fae Ceredigion. Ei nod oedd gweithio gyda chymunedau a pherchnogion tir lleol i sefydlu'r parth hwn, a gweithio tuag at ystod o ddeilliannau ecolegol, economaidd a chymdeithasol¹, gan gynnwys adfer ecolegol, mentrau yn seiliedig ar natur ac isadeiledd. Ariannwyd y prosiect am gyfnod o bum mlynedd, gyda chyllideb o £3.4 miliwn. Roedd gan y prosiect ystod eang o bartneriaid yn wreiddiol.²
- 1.3 Lansiodd prosiect OMIM gan yr arianwyr fel rhan o gyfres o lansiadau prosiectau eraill a ariannwyd gan ELP ym mis Hydref 2018, a dechreuodd y prosiect ym mis Ionawr 2019. Ar ddiwedd 2018 a 2019, derbyniodd y prosiect lawer iawn o feirniadaeth gan aelodau o'r gymuned leol, gan gynnwys perchnogion tir, gan arwain at rai o'r partneriaid yn tynnu'n ôl o'r bartneriaeth, ac ychydig iawn o gynnydd wrth gyflawni amcanion y prosiect. Ar ddiwedd 2019, o ganlyniad i hyn, cafodd y bartneriaeth OMIM ei ail-sefydlu gyda gwahanol drefniadau o ran partneriaid craidd, trefniadau staffio newydd, a chytunwyd ar ddull diwygiedig yn 2020, yn cynnwys cyfnod datblygu newydd o ddwy flynedd, unwaith eto wedi'i ariannu gan ELP. Bwriad y cam hwn yw adeiladu perthynas gryfach gyda thrigolion yr ardal a buddiolwyr posibl, i gynllunio ar gyfer sicrhau canlyniadau at y dyfodol. Mae partneriaid craidd presennol OMIM³ yn awyddus i ddysgu o'u profiadau o'r prosiect hyd yma i ddarparu sylfaen ar gyfer eu gwaith at y dyfodol.
- 1.4 Mae'r gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio ar gyfnod datblygu'r prosiect yn 2017/2018 a'r cyfnod gweithredu yn ystod 2019/2020. Pwrpas yr adolygiad yw:
- gwerthuso llywyddiannau a diffygion y prosiect hyd yma i ganfod beth sydd wedi cyfrannu tuag at nodau'r prosiect ac wedi'u rhwystro
 - gwerthuso trefniadau llywodraethu a chyfraniad partneriaid
 - gwerthuso syniadaeth a rheolaeth y prosiect
 - argymhell meysydd i'w gwella i lywio cam nesaf prosiect OMIM, gan gynnwys dysgu o brofiadau OMIM ar gyfer prosiectau tebyg ar lefel tirwedd
- Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith hwn ac yn darparu argymhellion ar gyfer y prosiect at y dyfodol.
- 1.5 Mae'n bwysig nodi:
- bod y gwerthusiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar systemau mewnol a rheolaeth y prosiect, a sut mae hyn wedi effeithio ar allu'r partneriaid i weithio tuag at nodau'r prosiect.

¹ Mae nodau gwreiddiol y prosiect OMIM wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

² Y partneriaid gwreiddiol oedd Rewilding Britain; Montgomery Wildlife Trust; Wales Wild Land Foundation; Cyfoeth Naturiol Cymru; RSPB Cymru; Coed Cadw; Vincent Wildlife Trust; Marine Conservation Society; Whale & Dolphin Conservation, Pen Llŷn a'r Sarnau SAC (Cyngor Gwynedd); Wildlife Trust South & West Wales a Waterloo Foundation ac EcoDyfi

³ Y partneriaid cyfredol yw RSPB Cymru; Coed Cadw; Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Trefaldwyn; ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (Cyngor Gwynedd); Whale & Dolphin Conservation; Cymdeithas Cadwraeth Forol a WWF-UK

- ar yr un pryd, ac ar wahân i'r gwerthusiad hwn, mae staff prosiect OMIM wedi bod yn ymgysylltu gyda chymunedau lleol i ddeall sut allan nhw weithio'n fwy effeithiol yn allanol fel rhan o Gam Datblygu Prosiect diwygiedig yn 2020-22⁴ sydd ar waith ar hyn o bryd.
- dylid nodi yma, ac ym mhrif gorff yr adroddiad, bod y canfyddiadau'n ymwneud yn bennaf ag elfennau tiriogaethol y prosiect.
- bod hyn wedi cael ei oruchwyllo gan Weithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bartneriaid OMIM, a fu'n darparu arweiniad i'r tîm gwerthuso ar y dystiolaeth ddogfennol, cyfweiliadau un i un a gweithdai a ddefnyddiwyd i ymchwilio i'r materion a nodwyd.

1.6 Mae hwn yn werthusiad annibynnol gan dîm sydd â phrofiad eang o werthuso rhaglenni ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ledled Cymru⁵. Maen nhw wedi defnyddio eu harbenigedd i ddeall barn, mewnwleidiad a phrofiad gwahanol bobl o bob rhan o bartneriaeth y prosiect, i adolygu'r dystiolaeth ddogfennol, ac archwilio'r prif wersi a ddysgwyd gan y rhai sydd wedi ymgysylltu â'r prosiect ar ffurf gweithdai.

1.7 Mae'r dadansoddiad hwn yn ceisio gwahaniaethu rhwng y gwahanol gamau o fewn y prosiect: Cychwyn y prosiect yn ystod 2017/2018; y broses ymgeisio yn 2018; lansiad OMIM yn 2018/19 a'r hyn a ddigwyddodd wedyn; blwyddyn gyntaf y prosiect yn ystod 2019; ail-ddylunio'r prosiect yn ystod 2019/20; cyfnod Cynllunio'r Prosiect presennol yn 2020/22; a'r dyfodol y tu hwnt i 2022. Mae'n bwysig iawn nodi nad yw hwn yn hanes cronolegol o'r hyn sydd wedi digwydd yn y prosiect, na'n adolygiad cyffredinol, beirniadaeth na chasgliad o ran ei werth - hyd yma, ond yn hytrach, mae'n werthusiad sy'n canolbwyntio ar y materion a amlinellir yn 1.4 fel sylfaen ar gyfer cynllunio at y dyfodol a darpariaeth OMIM.

1.8 Mae hefyd yn werth nodi bod y gwerthusiad wedi cael ei gwblhau yn ystod haf 2020, yn ystod y cyfyngiadau Covid, dros gyfnod byr gyda chyllideb gyfyngedig, gyda tharged o gwblhau erbyn diwedd Medi. Mae'r tîm gwerthuso'n hynod ddiolchgar am yr ymdrech a'r ymroddiad a roddwyd gan bartneriaid presennol ac yn enwedig yr unigolion a fu'n rhan o'r prosiect yn y gorffennol a nawr, y rhai a fu'n cyfrannu i'r arolwg, y gweithdai a'r cyfweiliadau a darparu barn onest ar OMIM, er mwyn darparu sylfaen ar gyfer cynnydd at y dyfodol.

1.9 Mae holl bartneriaid prosiect O'r Mynydd i'r Môr, ddoe a heddiw, yn awyddus i ddysgu o ddwy flynedd gyntaf y prosiect. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn i gefnogi'r gwaith hwnnw. Mae'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer partneriaid a chyllidwyr yn cael eu nodi drwy gydol y ddogfen, ac yn y Crynodeb Gweithredol.

1.10 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Adran 1 - CEFNIDIR - yn darparu'r cyd-destun ar gyfer y gwerthusiad	2
Adran 2 - CRYNODEB GWEITHREDOL yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion allweddol i bartneriaid eu hystyried a'u gweithredu.	4
Adran 3- METHODOLEG GWERTHUSO - disgrifiad o sut y cynhaliwyd y gwerthusiad	7
Adran 4 - LLYWODRAETHU - edrych ar y ffordd y mae'r dulliau llywodraethu wedi datblygu drwy gydol y prosiect ac awgrymu ffyrdd y byddai modd datblygu llywodraethu tuag at y dyfodol o fewn y bartneriaeth ac yn yr ardal leol.	9

⁴ Gweler manylion Cam Cynllunio Prosiect 2020-22 yn Atodiad C.

⁵Darparodd Dr Alan Netherwood fewnbwn methodolegol, cynhaliodd ddadansoddiad ar bob cam o'r prosiect ac arwain y gwaith o ysgrifennu'r adroddiad terfynol; bu Dafydd Thomas yn cefnogi'r gwaith o gasglu data drwy ddylunio a hwyluso gweithdai a bu Paul Rendro a Jetske Germing o Fforwm Arfordirol Sir Benfro yn darparu cefnogaeth rheoli prosiect a dadansoddi data. Mae manylion cryno o'u profiad wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

Adran 5 - RHEOLI PROSIECT - adlewyrchu ar ddulliau rheoli prosiect rhwng 2017-20, o'r cysyniad gwreiddiol i ail-sefydlu'r prosiect, yr hyn y gellir ei ddysgu o hyn, a ffyrdd y gellir gwella hyn yn y dyfodol	14
Adran 6 - GWEITHIO FEL PARTNERIAETH - edrych ar yr hyn y gellir ei ddysgu o'r ffordd y bu partneriaid yn cydweithio rhwng 2017-20, ar gyfer y prosiect OMIM a sut y gallai lywio prosiectau eraill o'r math hwn ar raddfa'r dirwedd sy'n gweithio gyda nifer o bartneriaid.	18
Adran 7- ARGYMHELLION - ar sail dadansoddiad yn Adrannau 4-6, mae'r tîm gwerthuso yn darparu argymhellion i OMIM ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu, rheoli prosiect a gweithio mewn partneriaeth fel rhan o gam cynllunio'r prosiect yn 2020-22 ac o ran gweithgaredd yn yr ardal at y dyfodol.	25
Atodiadau: A: Nodau Gwreiddiol y Prosiect: B: Nodau Gwreiddiol OMIM C: Nodau Diwygiedig OMIM D: Y Tîm Gwerthuso: Atodiad E: Cwestiynau a ofynnwyd yn y Gwerthusiad	27

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb cyffredinol o'n canfyddiadau mewn perthynas â llywodraethu, rheoli prosiect a gweithio mewn partneriaeth, ynghyd â gwersi allweddol a ddysgwyd ar gyfer prosiectau o'r math hwn, a set o argymhellion a luniwyd i atgyfnerthu gwaith O'r Mynydd i'r Môr wrth symud ymlaen.

Mae'r **canfyddiadau** eang a'r **gwersi a ddysgwyd** ar gyfer O'r Mynydd i'r Môr fel a ganlyn:

- 2.1 nid oedd digon o eglurder ynghylch yr hyn y byddai'r prosiect OMIM yn ei gyfrannu i'r ardal, na'r 'cynnig' i gymunedau lleol a darpar fuddiolwyr. Mae'n hanfodol bod hyn yn dod yn fwy eglur trwy'r Cyfnod Cynllunio Prosiect 2020-22. Mae hyn yn cynnwys buddion economaidd a chymdeithasol posibl y prosiect yn ogystal â buddion ecolegol.
- 2.2 ni roddwyd digon o ystyriaeth nac amser i'r ffyrdd y gallai rhanddeiliaid a phartneriaid lleol gydweithio i ddylunio a chyflawni'r prosiect gyda'i gilydd. Mae angen i'r Cyfnod Cynllunio Prosiect sefydlu ffyrdd mwy tryloyw a phriodol o wneud hyn.
- 2.3 dylai trefniadau llywodraethu'r prosiect fod wedi cael eu cynllunio'n well gan bob partner er mwyn: sefydlu'r prosiect; cynllunio at y dyfodol ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid lleol. Mae angen aildrefnu a datblygu trefniadau llywodraethu'r prosiect ar gyfer 2020-22 er mwyn cefnogi rhanddeiliaid a phartneriaid i gydweithio at y dyfodol
- 2.4 nid oedd y dull o reoli prosiect, rheoli risg a chyfathrebu yn briodol nac yn ddigonol ar gyfer prosiect o'r math hwn a'i gymhlethdod. Ers i RSPB gymryd yr awenau fel y partner arweiniol mae hyn wedi gwella, a dylai'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid gyfrannu at wella eu dulliau rheoli prosiect, rheoli risg a chyfathrebu.
- 2.5 nid oedd sefydliadau partner yn glir o ran eu cyfrifoldebau a'u rolau yn ystod dyddiau cynnar y prosiect ac er bod hyn yn dod yn fwy eglur, mae angen gwneud gwaith er mwyn; sefydlu gwell cyd-ddealltwriaeth rhwng partneriaid a rhanddeiliaid ynglŷn â beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau; ac i bartneriaid fyfyrion rheolaidd ar eu rolau a sut maent yn esblygu wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.
- 2.6 dylai rhwydwaith cymhleth o rhanddeiliaid a phrosiectau lleol fod wedi cael eu cynnwys yn fwy effeithiol wrth gynllunio darparu'r prosiect. Mae angen deall y rhwydwaith hwn yn well fel rhan o'r Cyfnod Cynllunio Prosiect ac fel rhan annatod o'r cynllunio ar gyfer 2022. Bydd tynnu ar sgiliau'r rhwydwaith lleol hwn yn hanfodol wrth i'r prosiect wrth symud ymlaen.

Mae yna hefyd wersi ehangach i'w dysgu ar gyfer partneriaid a chyllidwyr **prosiectau tebyg** o ran y ffordd maen nhw'n sefydlu, cyfathrebu, cyflwyno a dysgu o brosiectau o'r math hwn:

- 2.7 mae angen cam cyn-ymgeisio ar gyfer cynlluniau cyllido sylweddol, er mwyn i ddarparu ymgeiswyr sefydlu dealltwriaeth o rwydweithiau lleol, ymgysylltu â rhanddeiliaid, fel y gall syniadau a phartneriaethau esblygu ar eu cyflymder eu hunain.
- 2.8 byddai'r math hwn o gam cyn-ymgeisio yn helpu i sicrhau bod unigolion allweddol, gan gynnwys perchnogion tir, ffermwyr a'r rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd morol nid yn unig yn cael eu cynnwys o fewn amcanion y prosiect, ond eu bod hefyd yn rhan o'r trefniadau llywodraethu a darparu.
- 2.9 mae gweithgaredd o'r math hwn yn gofyn am gyllid penodol ynddo'i hun er mwyn i gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu fod yn ystyrlon. Nodir bod ELP ac O'r Mynydd i'r Môr wedi cydnabod hyn, a dyma un o brif amcanion y Cyfnod Cynllunio Prosiect presennol.
- 2.10 mae angen i bartneriaid a chyllidwyr gydweithio'n agos er mwyn deall nodweddion penodol yr ardal a allai elwa o dderbyn cyllid, mewn ffordd sy'n parchu cyd-destunau lleol, gan ddeall nodweddion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac ecolegol unigryw'r 'ardal' hon.
- 2.11 mae angen i gyllidwyr a phartneriaid weithio *gyda'i gilydd* i ddeall risgiau, cyfleoedd ac amserlenni hirdymor posibl ar gyfer cyflawni canlyniadau cymhleth ac i gydnabod hyn fel rhan o fecanweithiau adrodd a rheolaeth barhaus y prosiect. Byddai hyn yn cefnogi dull cydweithredol o gyllido, yn hytrach dull trafodol rhwng y corff cyllido a'r sawl sy'n derbyn cyllid.
- 2.12 Mae'n bwysig cydnabod bod effaith prosiectau o'r math yma yn fwy na darpariaeth ecolegol yn unig; mae hefyd yn darparu buddion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach sy'n cyfrannu tuag at ddatblygiad cynaliadwy. Dylai cyllidwyr ddarparu cefnogaeth i bartneriaid i ddatblygu ffyrdd arloesol o gydnabod y budd ychwanegol hwn i'r ardal a'r cymunedau sy'n ymwneud â phrosiectau o'r math hwn.

Argymhellion

O ganlyniad i'r canfyddiadau a'r hyn a ddysgwyd, rydym ni'n cynnig yr argymhellion canlynol

A1 - Mae angen i'r Cam Cynllunio Prosiect ddangos **Pwrpas Clir** ar gyfer prosiect O'r Mynydd i'r Môr. Rydym yn argymhell y dylai'r prosiect ddatblygu dealltwriaeth glir a chydfuddiannol o fuddion y prosiect hwn rhwng partneriaid y prosiect a rhanddeiliaid lleol. Mae angen i OMIM ddiffinio 'cynnig' mwy eglur i'r gymuned a rhanddeiliaid lleol mewn amgylcheddau tir a môr, gan egluro sut y bydd cydweithio o fudd iddyn nhw, i'w cymunedau ac i natur. Dylai eu rôl o fewn y 'cynnig' hwn fod yn dryloyw a dylid cytuno ar y rôl honno gyda nhw.

A2 Dylid sefydlu **Bwrdd Partneriaeth Prosiect** er mwyn sicrhau bod partneriaid y prosiect yn gallu ymgysylltu a chael eu harwain gan arbenigedd lleol. Dylai hyn gynnwys cynrychiolwyr partneriaid prosiect, cynrychiolwyr o berchnogion tir lleol, buddiannau morol, safbwyntiau economaidd a chymdeithasol lleol, sefydliadau anllywodraethol a swyddogion perthnasol ac aelodau o Gynghorau Gwynedd, Ceredigion a Powys. Er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect, bydd adeiladu perthynas gyda'r cynrychiolwyr hyn yn allweddol.

A3 bod **Grŵp Rheoli** yn cael ei sefydlu i ddarparu goruchwyliaeth, craffu, a chyfeiriad ar gyfer darparu'r prosiect yn ystod 2020-22, ac i sefydlu trefniadau rheoli priodol ar gyfer y prosiect ar ôl 2022. Dylai'r Grŵp hwn gefnogi staff y prosiect (a'r Grŵp Cyflenwi - gweler isod) i reoli risg, arwain y gwaith cyfathrebu, goruchwyllo materion ariannol, adrodd i gyllidwyr, a gweithredu fel eiriolwyr ar ran OMIM. Dylai hwn gynnwys staff y prosiect, gyda chefnogaeth staff arbenigol o sefydliadau partner, a chymorth gan gynrychiolwyr lleol gyda sgiliau neu fewnwelediad penodol a fyddai'n

cefnogi rheolaeth y prosiect. Dylai'r grŵp hwn barhau trwy gydol 2020-22 a dylid sefydlu grŵp tebyg ar gyfer gweithgareddau ar ôl 2022.

A4 Dylid sefydlu **Grŵp Darparu** sy'n cynnwys tîm y prosiect, a staff o sefydliadau sy'n gweithio ar lefel y gymuned yn yr ardal. Byddai'r Grŵp hwn yn cefnogi'r gweithgareddau a amlinellwyd yn y cam Cynllunio Prosiect gan gynnwys: ymgysylltu â'r gymuned leol; mapio cynefinoedd; datblygu strategaeth, ymgysylltu â pherchnogion / stiwardiaid perthnasol a defnyddwyr adnoddau; gweithio ar fentrau natur a chadwyni cyflenwi; nodi ymyriadau posibl. Dyma sut mae gwybodaeth leol arbenigol yn bwydo i mewn i OMIM ar lefel ymarferol. Bydd y grŵp hwn yn cefnogi gwaith y prosiect o ddydd i ddydd

A5 **Cyfrifoldebau ac Adnoddau** Rydym yn argymhell yn ystod y camau nesaf, y dylai OMIM annog partneriaid (a rhanddeiliaid) i fod yn benodol ynghylch eu rôl a'u cyfrifoldebau a pha adnoddau ac arbenigedd y gellir eu cynnig i'r prosiect, a dylai hyn gael ei adolygu'n rheolaidd. Mae bod yn eglur ynglŷn â hyn yn helpu i reoli adnoddau, sgiliau ac arbenigedd, rheoli disgwyliadau ac osgoi camddealltwriaeth.

A6 Dylid sefydlu **System Rheoli Risg** sy'n ymdrin â risgiau strategol i'r prosiect yn ogystal â risgiau rheoli ar gyfer darparu'r prosiect. Ni ddylid defnyddio hwn fel ymarfer dibwrpas. Yn hytrach, dylid ei ddefnyddio fel adnodd rheoli i helpu partneriaid a staff i gynllunio, ymgysylltu a phennu'r ffordd ymlaen ar gyfer y prosiect drwy gydol y Cyfnod Cynllunio, yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a allai godi yn ystod 2020-22.

A7 Dylai'r Cyfnod Cynllunio Prosiect gynnal **Dadansoddiad Sgiliau** i bennu'r sgiliau sy'n ofynnol a'r rhai sydd ar gael yn lleol er mwyn sefydlu cam nesaf y prosiect. Dylai hyn ganolbwyntio ar sgiliau ymarferol, rheoli a strategol. Dylai'r ffocws sgiliau hwn fod yn rhan allweddol o'r achos busnes dros OMIM wrth symud ymlaen.

A8 Dylai'r Cyfnod Cynllunio Prosiect gynnwys asesiad o **Effaith Economaidd** posibl y prosiect i benderfynu sut y gall ei weithgaredd gefnogi economïau ariannol ac anariannol yr ardaloedd lleol, yn y gymuned, i bobl leol sy'n cadw tir a rheolwyr tir. Dylai'r asesiad hwn fod yn rhan allweddol o'r achos busnes ar gyfer OMIM wrth edrych tua'r dyfodol.

A9 - Dylai staff OMIM dderbyn hyfforddiant mewn **Cyd-ddylunio a Chyd-gynhyrchu** i'w defnyddio fel rhan o'r Cyfnod Cynllunio Prosiect ac, yn ei dro, i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn eu gwaith gyda rhanddeiliaid, Bwrdd y Rhaglen, Grwpiau Rheoli a Chyflenwi. O ganlyniad, gall partneriaid a rhanddeiliaid yn yr ardal leol ddeall buddion dulliau cynhwysol o weithio, a defnyddio'r ddealltwriaeth hon at y dyfodol fel rhan o'r cyfnod Cynllunio'r Prosiect ar gyfer 2021-22 a thu hwnt. Bydd hyn yn meithrin gallu ar gyfer gwaith cydweithredol yn yr ardal.

A R7 Dylai OMIM fabwysiadu dull o **Lywodraethu Atblygol**⁶ wrth i'r cam Cynllunio Prosiect barhau 2020-22, fel bod y Bwrdd Partneriaeth Prosiect yn edrych yn rheolaidd ar y ffordd y mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd, p'un a yw'r dulliau cyfredol yn achosi unrhyw broblemau (neu gyfleoedd), ac i nodi ffyrdd i wella cefnogaeth partneriaid i'r prosiect yn ei chyfanrwydd.

⁶ **Llywodraethu Atblygol** - dull meddwl mwy hunanymwybodol a beirniadol sy'n agored i sawl safbwynt, gan gwestiynu dibenion a dulliau sut mae polisi / prosiect yn cael ei gyflawni yn barhaus. Stirling, A. (2006) Precaution, foresight, sustainability: Reflection and reflexivity in the governance of science and technology, yn: J.-P. Voss, D. Bauknecht & R. Kemp (Eds) Reflexive Governance for Sustainable Development, tud. 225–272 (Cheltenham: Edward Elgar).

3- METHODOLEG GWERTHUSO - disgrifiad o sut y cynhaliwyd y gwerthusiad.

3.1 Cysylltodd y tîm gwerthuso â Gweithgor o brosiect OMIM i gytuno ar y fethodoleg ar ddechrau'r gwaith. Mae hyn yn cynnwys y camau allweddol canlynol:

3.2 **Arolwg MeetingSphere** dwyieithog i'w gwblhau gan brif gyfranwyr⁷: (24 Gorffennaf - 11 Awst 2020), gan ofyn cwestiynau'n ymwneud â chyfranogiad partneriaid; sut roedd OMIM yn cefnogi eu gwaith; dyluniad y prosiect; llywodraethu; rheoli; gwaith fel partneriaeth; gwelliannau; buddion⁸. Casglwyd y wybodaeth hon ynghyd, gan wirio'r ystyr gyda'r gweithgor, a'i rhannu fel rhan o weithdy ar-lein (gweler isod). Derbyniodd y tîm gwerthuso 130 o sylwadau unigol ar y cwestiynau hyn.

3.3 **Dadansoddiad Dogfennol** o ddeunydd a dogfennau rheoli allweddol a rannwyd gan dîm OMIM, gan gynnwys nodiadau cyfarfodydd, adroddiadau cynnydd mewnol, adroddiadau i gyllidwyr, deunydd cyfathrebu, a dogfennau cais. Dadansoddwyd y deunydd hwn er mwyn cael dealltwriaeth o drefniadau llywodraethu, rheoli prosiect a phartneriaethau OMIM ochr yn ochr â'r Arolwg a'r Gweithdai. Rydym yn cyfeirio at y deunyddiau hyn drwy gydol y gwaith ymchwil hwn.

3.4 Cynhaliwyd **Gweithdy Ar-lein # 1** ar 21 Awst ar gyfer rhanddeiliaid a wahoddwyd drwy OMIM er mwyn: adolygu adborth o'r arolwg a chynnal archwiliad pellach o drefniadau llywodraethu, rheolaeth a gweithio mewn partneriaeth drwy ofyn y cwestiynau canlynol:

- beth oeddech chi'n cytuno ag ef, anghytuno ag ef, a beth sydd ar goll o ganlyniadau'r arolwg?
- beth weithiodd yn dda?
- beth nad oedd yn gweithio cystal?
- a sut y dylid defnyddio gweithdy # 2 i lywio'r dyfodol ar gyfer OMIM?

Cymerodd 11 o bobl ran yn y gweithdy, heb gynnwys y tîm gwerthuso. Cynigiwyd gwasanaeth hwyluso Cyfrwng Cymraeg . Yr ymateb a gafwyd i'r data arolwg a gyflwynwyd i'r cyfranogwyr oedd ei fod yn adlewyrchiad teg o'u profiadau gyda'r prosiect. Estynnwyd gwahoddiad iddynt wedyn i archwilio'r hyn yr oedden nhw'n cytuno ag ef, yn anghytuno ag ef, ynghyd ag unrhyw fylchau. Cafodd y data hwn ei gasglu ynghyd gan ddefnyddio MeetingSphere, ei roi mewn trefn a'i rannu fel rhan o Weithdy #2.

3.5 Cynhaliwyd **Gweithdy Ar-lein # 2** ar 27 Awst ar gyfer rhanddeiliaid er mwyn adolygu'r deunydd o Weithdy #1; ac i edrych ar y cwestiynau canlynol:

- beth ydym wedi'i ddysgu o ganlyniad i OMIM ar gyfer prosiectau tebyg o'r math hwn (llywodraethu; rheoli prosiectau; partneriaethau)?
- sut allwn ni ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith presennol ac at y dyfodol yng nghyfnod Cynllunio Prosiect OMIM?

Cymerodd 12 o bobl ran yn y gweithdy, heb gynnwys y tîm gwerthuso. Cynigiwyd gwasanaeth hwyluso Cyfrwng Cymraeg. Casglwyd y data gan ddefnyddio MeetingSphere yn ystod ac ar ôl y cyfarfod a'i ddidoli i'w ddefnyddio fel rhan o'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn.

3.6 Cynigiwyd **cyfweiliadau 1-1** i ddau grŵp o bobl: y rhai a oedd yn teimlo'n fwy cyfforddus i rannu eu profiadau ar sail 1-1; a chynrychiolwyr partneriaeth prosiect y gorffennol a phresennol⁹. Cynhaliwyd 12 cyfweiliad i gyd yn ystod mis Awst a mis Medi 2020. Cyfweiliadau lled-strwythuredig 1-1.5 awr oedd y rhain yn canolbwyntio ar y canlynol: cyfnod dylunio OMIM; lansiad a blwyddyn gyntaf y prosiect; darparu'r prosiect; llywodraethu; arweinyddiaeth; gweithio

⁷ Rhestr o gyfranwyr allweddol: Rhestr o 42 o unigolion a ddarparwyd gan Weithgor OMIM.

⁸ Mae rhestr o'r cwestiynau a ofynnwyd ar bob cam o'r prosiect ar gael yn Atodiad E.

⁹ Gan gynnwys: RSPB, Coed Cadw; Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Trefaldwyn; WWF Cymru; Rewilding Britain; Partneriaeth Eco-dyfi; Nearly Wild; Cyngor Gwynedd; Whale & Dolphon Conservation; Staff OMIM ddoe a heddiw.

mewn partneriaeth; ail-ddylunio'r prosiect, gweithgaredd presennol ac edrych tua'r dyfodol. Cymerwyd nodiadau, ac mae'r rhain yn cael eu cadw'n gyfrinachol gan y tîm gwerthuso. Mae unrhyw ddeunydd a gasglwyd wedi cael ei ddefnyddio fel rhan o'r canfyddiadau cyffredinol, ac nid oes modd priodoli'r sylwadau.

3.7 Grŵp Llywio OMIM - Rhannwyd canfyddiadau ac argymhellion gyda'r Grŵp Llywio OMIM mewn cyfarfod ar-lein ar 23 Medi er gwybodaeth, er mwyn gofyn am unrhyw sylwadau ychwanegol ganddyn nhw. Gofynnwyd am gyngor ynglŷn â'r ffordd orau i gyflwyno'r adroddiad terfynol er mwyn cefnogi cam Cynllunio'r Prosiect yn 2020-22.

3.6 Dadansoddi ac Adrodd: mae'r tîm gwerthuso wedi defnyddio'r deunydd uchod i ddarparu trosolwg o'r data ar bob un o'r camau uchod yn Adrannau 4, 5 a 6 yr adroddiad hwn. Maent wedi defnyddio'r data hwn i werthuso'r dulliau llywodraethu, rheoli prosiect a phartneriaeth yn y gorffennol er mwyn gwneud argymhellion i bartneriaeth OMIM am waith yn y dyfodol yn y meysydd hyn. Yn y dadansoddiad hwn, bu'n bwysig iawn gwahaniaethu rhwng gwahanol gamau'r prosiect: sefydlu'r prosiect yn ystod 2017/18; y broses ymgeisio yn 2018; lansiad OMIM 2018/19 a'r digwyddiadau dilynol; blwyddyn gyntaf o weithredu yn ystod 2019; ailgynllunio'r prosiect yn 2019/20; y cam Cynllunio Prosiect cyfredol hyd at 2022; a'r dyfodol y tu hwnt i 2022. Mae'r dadansoddiad wedi ceisio adlewyrchu'r amserlen a'r esblygiad o fewn y dadansoddiad cymaint â phosibl. Cwblhawyd yr adroddiad terfynol hwn ar 2 Hydref 2020.

4 – LLYWODRAETHU OMIM - edrych ar ddatblygiad dulliau llywodraethu drwy gydol y prosiect, ac awgrymu ffyrdd y gellir datblygu dulliau llywodraethu at y dyfodol, a hynny o fewn y bartneriaeth yn ogystal â'r ardal leol.

4.1 Yn yr adran hon rydym yn cyfeirio at 'lywodraethu' yng nghyd-destun *“y ffordd y mae sefydliad neu brosiect yn cael ei reoli ar y lefel uchaf, a'r systemau ar gyfer gwneud hyn”*.¹⁰ Wrth ddweud hyn, rydym yn golygu pwrpas cyffredinol OMIM, pwy sy'n rhan ohono, a'r strwythurau rheoli sy'n cael eu rhoi ar waith i oruchwyllo a chyflawni'r prosiect. Ein tasg yn y gwerthusiad yw helpu'r prosiect OMIM i edrych ar ei ddull o lywodraethu yn y gorffennol ac at y dyfodol.

4.2 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar farn y rhai y buom yn ymgysylltu â nhw fel rhan o'r gwerthusiad o ran gwahanol agweddau ar drefniadau llywodraethu'r prosiect. Rydym yn defnyddio'r data i amlinellu'r hyn maen nhw'n ei ystyried yn faterion allweddol wrth symud ymlaen. Yn y dadansoddiad hwn rydym yn gwneud ein harsylwadau ein hunain ar y data hwn ac yn dwyn ynghyd nifer o argymhellion allweddol ar gyfer y prosiect OMIM i lywio'r cam Cynllunio Prosiect. Gall OMIM ddefnyddio'r dadansoddiad yn yr adran hon fel adnodd i sicrhau bod y prosiect yn parhau i ddatblygu arfer da wrth lywodraethu.

Roedd yr arolwg, cwestiynau'r gweithdy, y dadansoddiad o ddogfennaeth a'r cyfweiliadau'n cynnig arsylwadau ynglŷn â'r canlynol:

- pwrpas OMIM
- partneriaeth OMIM
- y strwythurau rheoli
- llywodraethu - edrych tua'r dyfodol

4.3 Pwrpas OMIM

Fe wnaethom ni gasglu tystiolaeth helaeth gan y rhai a fu'n rhan o'r prosiect, ac roeddent yn cwestiynu eglurder a phwrpas OMIM, er gwaetha'r ffaith bod nifer wedi cofrestru fel partneriaid ac wedi cynnig cefnogi grŵp llywio'r prosiect. Roedd beirniadaeth o nodau cyffredinol y prosiect yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- diffyg negeseuon, nodau, amcanion, dulliau a deilliannau hirdymor clir
- diffyg amcanion a chymau gweithredu clir ar yr ochr economaidd a chymdeithasol
- gormod o bwyslais ar fuddion ecolegol yn hytrach na buddion cymunedol
- diffyg eglurder o ran ystyr ymyriadau ar sail natur
- diffyg eglurder o ran beth fyddai rôl gwahanol bartneriaid
- dryswch ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei gyflawni gan bwy
- dryswch ynghylch pwy oedd y buddiolwyr yn debygol o fod a beth fyddai'n bosibl iddyn nhw ei gael o'r prosiect, gan gynnwys y cyfraniadau ariannol i rai partneriaid
- diffyg eglurder o ran buddion i berchnogion tir a buddion economaidd posibl
- diffyg eglurder ar fathau penodol o ymyriadau ar dir ac yn yr amgylchedd morol
- diffyg eglurder o ran strwythurau rheoli'r prosiect a sut allai'r gymuned leol gymryd rhan
- tensiwn rhwng disgwyliadau partneriaid a chyllidwyr ynglŷn ag amserlenni ar gyfer sicrhau deilliannau a'r angen am gyd-ddylunio

Er ein bod yn deall mai rhan o bwrpas OMIM oedd gweithio ar y cyd i bennu rhai o'r uchod, rydym wedi darganfod bod llawer o'r deunydd hyrwyddo a'r ddogfennaeth a oedd yn gysylltiedig â'r cais, y lansiad a'r trefniadau ar ôl lansiad yn aneglur ynghylch yr union bethau fyddai'n cael eu gwneud yn yr ardal leol, a sut fyddai'r prosiect yn gweithio gyda rhanddeiliaid lleol. Rydym ni'n cytuno gyda nifer o gyfranwyr i'r gwaith ymchwil y dylai'r 'cynnig' i'r gymuned leol a'r buddiolwyr fod wedi bod yn llawer

¹⁰ <https://dictionary.cambridge.org/>

cliriach, a bod yr amwysedd hwn wedi cynyddu'r gwrthwynebiad a'r problemau a brofodd y prosiect ar ôl mis Ionawr 2019.

Rydym ni hefyd wedi deall y cyd-destun lleol lle'r oedd y prosiect yn cael ei lansio, effaith negyddol y llyfr *Feral* gan George Monbiot, cysylltiad canfyddedig RWB gyda'r awdur a'r anawsterau wrth sicrhau cyd-ddealltwriaeth gyda rhanddeiliaid ynglŷn â phwrpas OMIM, a byddwn yn archwilio hynny mewn adrannau diweddarach o'r adroddiad hwn. Mae'n amlwg i ni y gallai cynllunio a chyfathrebu llawer mwy gofalus a sensitif yn yr ardal leol fod wedi egluro pwrpas OMIM i'r cymunedau lleol a'r cymunedau o ddiddordeb yn fwy effeithiol, er mwyn ymgysylltu gyda gwrthwynebwyr lleol a chefnogwyr y prosiect ynghynt, ac y byddai lansiad wedi'i amseru a'i gynllunio mewn modd mwy sensitif wedi gallu osgoi diffyg gwybodaeth a gwrthdaro. Mae ein gwaith ymchwil yn awgrymu bod yr is-benawdau, y negeseuon allweddol a'r cyfathrebiadau a ddefnyddiwyd gan RWB yn dilyn y lansiad wedi parhau i fod yn ddi-fudd yn y cyd-destun lleol hwn.

Awgrymwn fod y diffyg eglurder ynglŷn â dibenion a chanlyniadau posibl y prosiect wedi parhau trwy gydol cyfran helaeth o ddechrau 2019 ar ôl ei lansio, ac na chafodd gwybodaeth ynglŷn â'r hyn mae'r prosiect yn ei wneud a'r hyn nad yw'n ei wneud ei gyfathrebu'n effeithiol tan fis Awst 2019. Rydym yn archwilio'r rhesymau am hyn mewn adrannau eraill o'r adroddiad. Credwn fod angen sicrhau cydbwysedd gofalus rhwng cadw pethau'n agored - i sicrhau cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid, a bod yn ddigon penodol i ymgysylltu gyda rhanddeiliaid gwybodus yn yr ardal leol gyda chynnig a phwrpas clir. Rydym yn archwilio buddion cyd-ddylunio yn fwy manwl yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

Mae angen sicrhau bod y pwrpas ar gyfer OMIM yn eglur. Rydym yn argymhell y dylai Cyfnod Cynllunio'r Prosiect 2020-22 ddatblygu dealltwriaeth glir a chydfuddiannol o fuddion y prosiect hwn rhwng partneriaid y prosiect a rhanddeiliaid lleol. Mae angen i OMIM ddiffinio 'cynnig' mwy eglur i'r gymuned a rhanddeiliaid lleol mewn amgylcheddau tir a môr, gan egluro sut y bydd cydweithio o fudd iddyn nhw, i'w cymunedau ac i natur. Dylai eu rôl o fewn y 'cynnig' hwn fod yn dryloyw a dylid cytuno ar y rôl honno gyda nhw. Rydym yn awgrymu y dylai'r Tîm Rheoli a'r Bwrdd Partneriaeth arfaethedig (gweler yr argymhellion yn nes ymlaen) herio eu hunain yn gyson ynghylch a yw'r "cynnig" yn dod yn gliriach yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd cyfleu buddion posibl y dull hwn ar yr adeg hon yn cynorthwyo i rannu dealltwriaeth o'r asedau a'r gofynion yn yr ardal lle mae buddion posibl. Bydd y buddion hyn yn esblygu ac yn newid dros amser, ond mae'r egwyddor o weithio gydag eraill i greu buddion lluosog yn parhau trwy gydol y prosiect.

4.4 Partneriaeth OMIM

Gwnaeth y cyfranwyr a gymerodd ran yn y gwerthusiad nifer o sylwadau'n ymwneud â strwythur a natur y bartneriaeth a gafodd ei ddwyn ynghyd gan RWB i achub y cyfle i wneud cais am gyllid i ELP. Roedd beirniadaeth yn cynnwys

- diffyg llais lleol o fewn trefniadau llywodraethu'r prosiect ar y dechrau
- diffyg profiad RWB o reoli prosiect o'r maint a'r cymhlethdod hwn
- diffyg eglurder o ran strwythur y bartneriaeth a phwy oedd yn gwneud beth
- diffyg arbenigedd economaidd a chymdeithasol o fewn y bartneriaeth i roi cyngor ynglŷn â deilliannau economaidd a chymdeithasol
- roedd partneriaid eisiau mwy o ddylanwad ac yn teimlo bod RWB yn cyfyngu ar hynny
- yr amser a gymerwyd i'r cyllidwyr i ddeall y prosesau gofynnol er mwyn symud y prosiect yn ei flaen a chymhlethdod y cyd-destun lleol
- sefydlu cysylltiadau rhwng OMIM a chynlluniau lleol presennol
- roedd gan bartneriaid eu syniadau eu hunain am yr hyn y gallai'r prosiect ei gyflawni yn ymwneud â'u hagenda eu hunain, ac nid oedd llawer o gytuno ar y cyd ynglŷn â phwrpas y prosiect

- diffyg safbwynt perchnogion tir a rheolwyr tir cymunedol
- yr angen am gorff arweiniol lleol

Cwestiwn allweddol i ni fel tîm gwerthuso yw, os oedd partneriaid yn teimlo fel hyn am y prosiect o'r dechrau ac yn ystod y flwyddyn gyntaf, pam na chafodd y pryderon hyn eu codi a'u datrys? O safbwynt y ffordd yr oedd y prosiect yn cael ei reoli, beth achosodd y sefyllfa hon a'r anfodlonrwydd gyda natur y bartneriaeth? A oedd trefniadau llywodraethu'r prosiect - ei strwythurau rheoli, yn creu rhwystr rhag creu partneriaeth fwy priodol ar gyfer darparu OMIM?

Rydym ni'n awgrymu o'n tystiolaeth fod y rhesymau dros yr anfodlonrwydd hwn fel a ganlyn: roedd cyfle i ymgeisio am gyllid, a dilynwyd hynny gan gorff arweiniol gyda diffyg profiad o sefydlu prosiect o'r math hwn. Cafodd partneriaeth ei sefydlu'n fuan iawn i gyflwyno cais am gyllid, partneriaeth gyda diddordebau cyffredin. Rydym ni'n awgrymu bod yr amserlen dynn wedi arwain at strwythur llywodraethu a fwriadwyd i fod yn strwythur dros dro, ond ni wnaeth y strwythur esblygu yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect. Fodd bynnag, rydym ni'n awgrymu, o ystyried profiad cyfunol partneriaid y prosiect o redeg prosiectau tebyg y dylent fod wedi talu mwy o sylw i sefydlu partneriaeth ehangach a mwy cynrychioladol. Rydym yn gwneud argymhellion yn 4.6 i fynd i'r afael â'r pryderon a'r beirniadaethau hyn.

4.5 Y Strwythur Rheoli

Roedd ein hadolygiad o dystiolaeth, trafodaethau gyda phartneriaid y prosiect a'r gweithdai yn dangos nad oedd y strwythur rheoli a sefydlwyd ar gyfer OMIM yn effeithiol er mwyn rheoli'r prosiect cyn nac ar ôl y lansiad, nac yn ystod wyth mis cyntaf y prosiect. Ers hynny, gwelwyd dystiolaeth bellach bod strwythurau rheoli wedi dod yn fwy effeithiol o ran arwain y prosiect a chefnogi'r staff.

Ein dealltwriaeth yw bod Grŵp Llywio wedi cael ei sefydlu yn cynnwys uwch gynrychiolwyr sefydliadau partner, Cyfarwyddwr RWB a Chyfarwyddwr OMIM; Tîm Rheoli sy'n cynnwys Cyfarwyddwr RWB a Chyfarwyddwr OMIM a Thîm Prosiect - a oedd yn cynnwys staff ac interniaid RWB a oedd yn darparu'r prosiect ar lawr gwlad.

Yn ogystal â hyn, sefydlwyd nifer o Weithgorau 'technegol' gan gynnwys grŵp amgylchedd naturiol; gweithgor morol; a gweithgor cyfathrebu. Roedd cynrychiolwyr o sefydliadau partner yn cyfrannu at y gweithgorau hyn ar ddechrau'r prosiect. Ni chafodd y rhain eu cynnal eto yn dilyn y trafodaethau cychwynnol. Rydym ni hefyd yn awgrymu bod y dull gweithgorau'n rhy gymhleth ar gyfer prosiect gyda phrinder adnoddau staffio i'w rheoli.

Rydym wedi adolygu'r ddogfennaeth o'r gwahanol grwpiau hyn o'r cyfnod cyn-lansio hyd at y cyfnod presennol. Nid oedd y ddogfennaeth gynnar yn dangos bod gwybodaeth yn llifo rhwng y gwahanol lefelau rheolaeth, na bod digon o gyfathrebu'n digwydd ynglŷn â chynnydd y prosiect, o ystyried math a chymhlethdod y prosiect. Ein barn ni yw, gyda chyllideb o £3.4 miliwn, na ddylai adnoddau staff fod wedi bod yn broblem. Dylai'r agwedd hon ar OMIM, sef sefydlu strwythurau rheoli a threfniadau llywodraethu cadarn, fod wedi bod yn flaenoriaeth cyn ei lansio.

Yr adborth a gafwyd o'r Grŵp Llywio, sy'n cynnwys barn gan yr aelodau, oedd nad oedd hyn wedi gweithio'n dda. Roedden nhw'n teimlo bod RWB yn cymryd drosodd yn ormodol ac wedi methu â gweithredu ar bryderon aelodau eraill o'r Grŵp Llywio. Roedd rhai'n teimlo nad oedd y Grŵp Llywio wedi dod at ei gilydd fel grŵp a oedd yn rhannu gweledigaeth a chyfrifoldebau, nad oeddent yn gweithredu neu'n 'camu i'r adwy', nad oedd 'gwybodaeth yn llifo', ac nad oedd 'digon o wahaniaeth rhwng y Grŵp Llywio a'r rheolwyr, gyda'r Grŵp Llywio'n gweithredu fel grŵp rheoli. Mae'n bwysig nodi bod aelodau o'r Grŵp Llywio'n teimlo nad oeddent yn gallu gweithredu fel eiriolwyr ar gyfer y prosiect. Ar yr un pryd, roedd rhai yn teimlo bod lefelau'r gefnogaeth a gynigiwyd gan rai aelodau o'r Grŵp Llywio i'r prif bartner yn amrywiol. Roedd y feirniadaeth hefyd yn canolbwyntio ar yr oedi wrth sefydlu mecanwaith clir ar gyfer dyrannu cyllid ar gyfer ymyriadau yn ystod blwyddyn gyntaf y

prosiect. Pryder amlwg i ni oedd nad oedd y Grŵp Llywio'n teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â chyngor a phryderon staff.

Roedd llawer o'r rhai a gyfrannodd at ein gwaith ymchwil yn teimlo bod gan y Grŵp Llywio ddiffyg gwybodaeth am yr ardal, eu bod yn gwneud rhagdybiaethau o ran diffyg arbenigedd yn yr ardal leol ac nad oedd y gefnogaeth gyda chyfathrebu'n deall y cyd-destun lleol chwaith. Maent yn awgrymu bod hyn wedi ychwanegu at ganfyddiad llawer o wrthwynebwyr mai grŵp o bobl o'r tu allan oedd hwn yn dod i mewn, nid i wrando a dysgu, ond 'i orfodi prosiect a bennwyd ymlaen llaw arnynt'.

Rydym yn cydnabod, mewn ymateb i'r sefyllfa hon, fod RWB wedi cytuno i gamu allan o'r bartneriaeth ar ôl trafod gyda'r Grŵp Llywio, er budd y prosiect.

Rydym yn archwilio rôl y Grŵp Llywio yn fwy manwl mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu, credwn nad oedd aelodau'n teimlo bod y Grŵp Llywio wedi dechrau gweithredu'n effeithiol nes i RSPB Cymru a Coed Cadw gymryd yr awenau fel partneriaid arweiniol.

Rydym yn deall bod rhywfaint o drafodaeth wedi bod ynglŷn â rôl y Grŵp Llywio, gan gynnwys gwaith manwl ar ddechrau 2020 wedi'i hwyluso gan Steve Evison o Nearly Wild i ystyried cryfderau a gwendidau'r prosiect, gan gynnwys eu rôl eu hunain. Roedd aelodau'r Grŵp Llywio yn ystyried hyn yn drobwynt cadarnhaol.

4.6 Llywodraethu - edrych tua'r dyfodol

Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn ein gwaith ymchwil i edrych tua'r dyfodol a chynnig syniadau ynghylch sut y byddai OMIM yn gallu gwella ei agwedd tuag at lywodraethu yn ystod Cam Cynllunio'r Prosiect ar gyfer 2020-22 a thu hwnt. Roedd y materion allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r holl drafodaethau ac ymatebion yn ymwneud â'r themâu canlynol:

egllurder a thryloywder

- ynghylch y bwriad, pwy sy'n cymryd rhan a'u rolau a'u cyfrifoldebau
- y bydd llywodraethu yn cael ei sefydlu fesul cam
- ynghylch sut allai pobl leol gymryd rhan a sut maen nhw eisoes yn cymryd rhan
- mwy o sensitifrwydd i ganfyddiadau lleol o bŵer a dylanwad yn y gymuned
- ail-ddylunio trefniadau llywodraethu i sicrhau gwell cynrychiolaeth o'r gymuned

ehangu'r bartneriaeth i gynnwys:

- rheolwyr tir a pherchnogion tir
- buddiannau morol
- sefydliadau ymbarél fel undebau ffermio
- prosiectau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheoli tir, yr economi leol a chanlyniadau cymdeithasol a diwylliannol
- awdurdodau lleol, swyddogion ac aelodau
- buddiannau economaidd a chymdeithasol

rolau partneriaid

- mwy o eglurder ynghylch disgwyliadau partneriaid
- dylai fod gan bartneriaid ddylanwad clir o fewn y prosiect
- gwahaniaethu rhwng rolau strategol, rheoli a darparu
- defnyddio'r sgiliau cywir yn y grŵp cywir

Rydym ni wedi edrych yn ôl ar y sylwadau hyn a byddai dadansoddiad o'r adran hon ac adrannau eraill yn yr adroddiad yn annog OMIM i sefydlu strwythur llywodraethu clir a syml yn ystod y cyfnod Cynllunio Prosiect. Ein hawgrymiadau yw:

Dylid sefydlu **Bwrdd Partneriaeth Prosiect** er mwyn sicrhau bod partneriaid y prosiect yn gallu ymgysylltu a chael eu harwain gan arbenigedd lleol. Dylai hyn gynnwys cynrychiolwyr partneriaid y prosiect, cynrychiolwyr o dirfeddianwyr lleol, buddiannau morol, safbwyntiau economaidd a

chymdeithasol lleol, sefydliadau anllywodraethol a swyddogion perthnasol ac aelodau o Gyngorau Gwynedd, Ceredigion a Powys. Er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect, bydd adeiladu perthynas gyda'r cynrychiolwyr hyn yn allweddol. Awgrymir y dylai uwch gynrychiolwyr partneriaid craidd y prosiect fwydo i'r grŵp a fyddai'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn i gyfnewid gwybodaeth ac ymgymryd â gweithgareddau i helpu i arwain y prosiect. Dylid gofyn i gyfranwyr weithredu fel eiriolwyr ar gyfer y prosiect gan rannu gwybodaeth gyda'u trigolion, aelodau a chydweithwyr am y prosiect a thynnu ar eu harbenigedd. Gellir darparu gwybodaeth i'r Bwrdd hwn rhwng cyfarfodydd er gwybodaeth, a gellir ymgynghori â'r Bwrdd ar gynlluniau'r dyfodol ar gyfer OMIM.

Yn ail, bod **Grŵp Rheoli** yn cael ei sefydlu i ddarparu goruchwyliaeth, craffu, a chyfeiriad ar gyfer darparu'r prosiect yn ystod 2020-22, ac i sefydlu trefniadau rheoli priodol ar ôl 2022. Dylai'r Grŵp hwn gefnogi staff y prosiect (a'r Grŵp Darparu - gweler isod) i reoli risg, arwain y gwaith cyfathrebu, goruchwyllo materion ariannol, adrodd i arianwyr, a gweithredu fel eiriolwyr ar ran OMIM. Dylai hwn gynnwys staff prosiect, gyda chefnogaeth staff arbenigol o sefydliadau partner, fel bod profiad partneriaid craidd wrth reoli prosiectau tebyg yn cael ei fwydo i'r grŵp hwn.¹¹ Dylai'r grŵp hwn gynnwys cynrychiolwyr lleol sydd â sgiliau neu fewnwelediad penodol a fyddai'n cefnogi rheolaeth y prosiect. Gall y grŵp hwn lywio gweithgareddau'r Bwrdd a dylent gwrdd bron bob mis, gydag agendâu, camau gweithredu ac adroddiadau ariannol clir. Dylai'r grŵp hwn barhau trwy gydol 2020-22 a dylid sefydlu grŵp tebyg ar gyfer gweithgareddau ar ôl 2022.

Yn olaf, dylid sefydlu **Grŵp Darparu** sy'n cynnwys tîm y prosiect, a staff o sefydliadau sy'n gweithio ar lefel gymunedol yn yr ardal. Byddai'r Grŵp hwn yn cefnogi'r gweithgareddau a amlinellwyd yn y cam Cynllunio Prosiect gan gynnwys: ymgysylltu â'r gymuned leol; mapio cynefinoedd; datblygu strategaeth, ymgysylltu â pherchnogion / stiwardiaid perthnasol a defnyddwyr adnoddau; gweithio ar fentrau natur a chadwyni cyflenwi; nodi ymyriadau posibl. Dyma sut mae gwybodaeth leol arbenigol yn bwydo i mewn i OMIM ar lefel ymarferol. Mae'n hanfodol bod y grŵp hwn hefyd yn cynnwys perchnogion tir lleol, y rhai sy'n gweithio yn yr amgylchedd morol, ac yn derbyn cyngor lleol ynglŷn â deilliannau economaidd a chymdeithasol unrhyw weithgareddau arfaethedig. Dylai'r grŵp hwn gwrdd yn rhithiol unwaith y mis i gyfnewid gwybodaeth, cynllunio a chynhyrchu diweddariadau byr ar gyfer y Grŵp Rheoli. Bydd y grŵp hwn yn cefnogi gweithrediad y prosiect o ddydd i ddydd drwy negeseuon e-bost, galwadau ffôn, a thrafodaethau rhithwir.

Rydym ni'n awgrymu y byddai'r dull uchod yn cynnig yr holl fecanweithiau priodol er mwyn cefnogi darpariaeth y prosiect, adeiladu perthnasoedd yn yr ardal leol a darparu tryloywder i bartneriaid, rhanddeiliaid a chyllidwyr. Ar yr un pryd, rydym yn awgrymu y byddai hyn yn ddigonol ar gyfer nodau'r prosiect dros y ddwy flynedd nesaf.

Dylai OMIM hefyd ystyried sut y gallai adnoddau nawr ac ar ôl 2022 gynorthwyo grwpiau rhanddeiliaid i gyfrannu'n effeithiol at y Tîm Rheoli a'r Bwrdd Partneriaeth. Er enghraifft, cadeirydd annibynnol cyflogedig ar y Bwrdd Partneriaeth er mwyn arwain y gwaith yn ei flaen yn yr ardal leol.

Mae nifer o godau llywodraethu ar gael a fyddai'n gallu llywio OMIM o ran y ffordd mae'n mynd ati i lywodraethu prosiect, er enghraifft gan WCVA¹², ac Academi Wales¹³, sy'n disgrifio ac yn trafod yr hyn a allai fod yn ddisgwyliedig o wahanol rannau o bartneriaethau fel OMIM. Mae'r rhain fel arfer

¹¹ Gan ddysgu o brosiectau llwyddiannus fel Living Levels yng Ngwent, Tir a Môr Llŷn ym Mhen Llŷn sydd wedi llwyddo i ymgysylltu gyda diddordebau lleol o fewn eu fframweithiau llywodraethu <https://www.livinglevels.org.uk/>
<https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/local-action-groups-and-projects/projects/tir-mor-llyn-land-and-sea>

¹² <https://www.charitygovernancecode.org/en>

¹³ <https://academiwales.gov.wales/news/articles/a9185c8b-2528-4129-87ed-c697a659d500>
<https://academiwales.gov.wales/Repository/resource/93183866-a194-4d6b-837a-dcf1fa2e38c9/en>

yn cynnwys: pwrpas, arweinyddiaeth, gwneud penderfyniadau, rôl y bwrdd, a dulliau o weithredu'n agored, sicrhau amrywiaeth, uniondeb ac atebolrwydd. Rydym ni'n awgrymu y dylai'r Tîm Rheoli ddefnyddio'r rhain fel adnodd, canllaw a meincnod i gwestiynu a yw trefniadau llywodraethu'r prosiect yn gweithio'n effeithiol rhwng 2020 a 2022, a nodi meysydd i'w gwella. Dylid eu defnyddio hefyd i lywio rhesymeg OMIM dros lywodraethu effeithiol ar ôl 2022.

5 - RHEOLI PROSIECT OMIM - yn edrych ar dulliau rheoli prosiect rhwng 2017-20, o'r cysyniad gwreiddiol i ail-sefydlu'r prosiect, yr hyn y gellir ei ddysgu o'r profiad, a ffyrdd y gellir gwella hyn yn y dyfodol

5.1 Mae ein dadansoddiad o reolaeth prosiect OMIM yn canolbwyntio ar y dulliau, y prosesau a'r technegau a fabwysiadodd y prosiect i'w alluogi i weithio tuag at ei amcanion. Roedd yr Arolwg MeetingSphere yn gofyn i ymatebwyr wneud sylwadau ynglŷn â'r mater hwn, gyda Gweithdy #1 yn canolbwyntio'n benodol ar yr hyn a fu'n gweithio'n dda, yr hyn a fu'n llai llwyddiannus o ran rheoli prosiect, a bu trafodaethau 1-1 hefyd yn archwilio'r mater yn fanylach. Llwyddodd y dadansoddiad dogfennol hefyd i roi cipolwg i'r tîm gwerthuso ar y ffordd yr oedd gwybodaeth yn cael ei rheoli a'i chyfathrebu ar bob cam o'r prosiect.

5.2 Mae'n bwysig nodi bod dulliau rheoli prosiect wedi esblygu dros y cyfnod hwn trwy gyfres o ddigwyddiadau allweddol gan gynnwys: lansiad ym mis Hydref 2018, penodi'r Cyfarwyddwr ym mis Rhagfyr 2019; gwrthwynebiad cynyddol yn ystod 8 mis cyntaf 2019; anawsterau wrth recriwtio a chadw staff yn ystod 2019; partneriaid allweddol yn tynnu'n ôl yn ystod ail hanner 2019; ail-ddylunio'r bartneriaeth yn ail hanner 2019 a dechrau 2020; allgymorth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddiwedd 2019 a dechrau 2020 ar ôl penodi Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned; a'r cam Cynllunio Prosiect newydd.

5.3 Mae'n arbennig o bwysig i ni nodi, ers ailgynllunio OMIM, bod ein hymchwil wedi dangos bod llawer o'r problemau a'r adborth negyddol a amlinellir yn yr adran hon wedi cael sylw. Mae partneriaid, y grŵp llywio, staff prosiect a rhanddeiliaid allanol a fu'n ymwneud â'r ymchwil yn awgrymu eu bod yn cydweithio'n fwy effeithiol, a bod y Cyfnod Cynllunio Prosiect yn rhoi amser a chyfle i reoli a chynllunio'r prosiect yn fwy gofalus. Roedd adborth o'r cyfarfodydd 1-1 a'r gweithdai yn amlgu llwyddiant y rhai a fu'n rhan o ail-ddylunio'r prosiect, yn enwedig gwaith RSPB Cymru, Coed Cadw, a rhai o staff presennol a blaenorol OMIM, a nodwyd bod eu cyfraniad wedi bod yn wych, o ran rheoli'r prosiect ac ymgysylltu'n allanol.

5.4 Mae nifer o themâu penodol wedi dod i'r amlwg o'r holl ddata a gasglwyd ar reoli'r prosiect (gweler isod) sydd wedi galluogi'r tîm i wneud ein harsylwadau ein hunain ar y data hwn a dwyn ynghyd nifer o argymhellion allweddol ar gyfer rheoli'r prosiect OMIM wrth symud ymlaen. Dylai OMIM ddefnyddio'r dadansoddiad hwn fel adnodd drwy gydol y cyfnod Cynllunio Prosiect er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu arfer da yng nghyd-destun rheoli prosiect.

5.5 Ein dull gweithredu yw dysgu gwersi cyffredinol o brofiadau'r rhai a fu'n rhan o OMIM, i osgoi sylwadau negyddol yn ymwneud ag unigolion penodol, ac i gynnal dadansoddiad eang o'r hyn sydd wedi digwydd a sut y gallai hynny lywio OMIM wrth symud ymlaen. Roedd yr arolwg, cwestiynau'r gweithdy, y dadansoddiad o ddogfennaeth a'r cyfweiliadau'n cynnig nifer o arsylwadau ar y canlynol:

- cyfathrebu mewnol
- cyfathrebu allanol
- cyd-destun lleol
- sgiliau rheoli prosiect sylfaenol
- agwedd tuag at reoli risg
- rheolaeth ariannol
- rheoli prosiect: edrych tua'r dyfodol

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o'r ystyriaethau hyn

5.6 Cyfathrebu Mewnol

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, cyn ail-ddylunio OMIM, bod lefel ac ansawdd cyfathrebu mewnol wedi effeithio'n negyddol ar y berthynas gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Yn fewnol, cafwyd beirniadaeth benodol dro ar ôl tro o'r canlynol:

- diffyg cyfathrebu ynglŷn â materion rheolaeth pwysig, er bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd, risgiau a gweithgaredd i'r pwyllgor llywio. Roedd nifer o bartneriaid yn awgrymu nad oeddent yn ymwybodol o raddfa nac ehangder problemau'r prosiect
- adroddiadau o ansawdd gwael gan rai aelodau staff, y corff arweiniol a'r grŵp llywio ynglŷn â chynnydd y prosiect i'w gilydd
- diffyg adroddiadau rheolaidd ymhlith partneriaid, gyda gwybodaeth gyfredol ynglŷn â'u gwaith a'u cyfrifoldebau i'w gilydd
- cyfathrebu gwael gan y corff arweiniol gwreiddiol gyda'r sefydliadau partner ynglŷn â gwneud penderfyniad a diffyg dilyniant (ac oedi) wrth ymateb i bryderon a godwyd yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywio.
- y partneriaid arweiniol

Mae ein dadansoddiad o'r dystiolaeth ddogfennol hyd at Awst 2019, a chyfweiliadau 1-1 yn cefnogi'r safbwyntiau hyn. Er bod adroddiadau blynyddol a chwarterol ac ariannol trwy gydol y prosiect wedi rhoi'r wybodaeth ofynnol i'r cyllidwyr, gwelsom yn gyffredinol fod ansawdd y wybodaeth mewn dogfennau sydd ar gael yn ymwneud â phrosiect OMIM yn amrywio'n sylweddol rhwng aelodau'r tîm. Rydym ni'n awgrymu bod y diffyg ansawdd hwn wedi cyfrannu at y cyfathrebu gwael rhwng partneriaid mewnol. Roedd hyn hefyd yn achosi problemau i'r tîm gwerthuso wrth ddeall y broses o wneud penderfyniadau, er enghraifft y diffyg dogfennaeth sydd ar gael yn ymwneud ag ymadawiad RWB, Eco Dyfi ac eraill o'r prosiect a sut y daeth RSPB Cymru i arwain ar y prosiect. Cafodd y bylchau hyn eu llenwi yn ystod y cyfweiliadau 1-1 fodd bynnag, ond dylai penderfyniadau rheoli allweddol o'r math hwn gael eu cofnodi'n fwy eglur.

Mae darpariaeth gwybodaeth fewnol wedi gwella'n sylweddol ers mis Awst 2019. Mae'n bwysig nodi mai dyma'r pwynt yn y prosiect lle'r oedd OMIM wedi'i staffio bron yn gyfan gwbl, bron i 10 mis ar ôl lansio'r prosiect. Enghraifft o'r gwelliant hwn yw ailddechrau cofnod o weithgaredd gyda phartneriaid allanol. Mae'r cofnodion yn dangos nid yn unig y gweithgareddau a gynhaliwyd, ond mae hefyd yn adlewyrchu ar ganlyniadau'r gwaith ymgysylltu. Byddem yn annog OMIM i ddefnyddio'r un dull trylwyr a myfyriol tuag at ei brosesau adrodd mewnol i bartneriaid a chyllidwyr.

5.7 Cyfathrebu Allanol

Ystyriwyd bod problemau sylweddol wedi bod o ran cyfathrebu gwybodaeth gan y prosiect i randdeiliaid allweddol hyd at fis Awst 2019. Roedd partneriaid a sefydliadau rhanddeiliaid eraill yn teimlo bod y corff arweiniol, partneriaid y prosiect a rhai aelodau o Dîm OMIM wedi methu â chyfathrebu'n effeithiol gyda rhanddeiliaid lleol. Roedd y canlynol y peri pryder penodol:

- lefel ac ansawdd yr ymgysylltiad gyda phrosiectau tirwedd eraill a oedd yn ymgysylltu â pherchnogion tir a ffermwyr
- y penderfyniad na fyddai staff yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus mwy nes bod rhagor o staff yn eu lle
- diffyg diweddariadau rheolaidd i grwpiau cymunedol
- diffyg ymgysylltiad dwyieithog yng nghamau cynnar y prosiect
- diffyg dolenni adborth o ymgysylltiad allanol â'r grŵp llywio
- cymorth cyfathrebu allanol ddim yn deall y cyd-destun lleol

Roedd y rhai a fu'n cymryd rhan yn ein gwaith ymchwil yn teimlo bod y cyfathrebu gwael wedi creu gwactod, ynghyd ag oedi wrth ddarparu gwybodaeth, gan arwain at wrthwynebwyr i'r prosiect yn datblygu eu naratif eu hunain ynglŷn â nodau ac amcanion y prosiect. Mae'n amlwg bod hyn wedi atgyfnerthu'r gwrthwynebiad allanol tuag at y prosiect.

Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol o fis Awst 2019 wedi bod yn rhan ganolog o weithgaredd OMIM yn arwain at ailgynllunio'r prosiect. Aethpwyd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid allanol trwy gynnal cyfarfodydd â COPA, a thrwy sesiynau galw heibio a gynhaliwyd

cyn Covid. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi'i gofnodi'n dda, ac mae'r adborth wedi cael ei ddefnyddio er mwyn datblygu dull OMIM ar gyfer Cyfnod Cynllunio'r Prosiect.

5.8 Cyd-destun lleol

Rydym ni wedi darganfod, yn ystod camau cynnar y bartneriaeth OMIM, roedd y rhai a oedd yn cymryd rhan yn ein gwaith ymchwil yn teimlo nad oedd dull digonol o ddeall ac adlewyrchu ar y cyd-destun lleol o fewn gwaith y prosiect. Roedd beirniadaeth benodol yn cynnwys:

- diffyg dealltwriaeth o sensitifrwydd perchnogion tir yn yr ardal leol
- tanamcangyfrif y gwrthwynebiad i ail-wylltio yn dilyn cyhoeddi *Feral*
- anallu'r partner arweiniol i wrando ar gyngor lleol a dysgu gan arbenigwyr a ffigyrau blaenllaw yn yr ardal
- diffyg dealltwriaeth gan y partner arweiniol o'r angen i wneud defnydd o gefnogaeth leol ar gyfer y prosiect yn hytrach nag arbenigedd allanol
- diffyg ymgysylltiad â grwpiau o wrthwynebwyr yn ystod hanner cyntaf 2019
- diffyg mapio rhanddeiliaid a diffyg ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid hyd at Awst 2019
- dull wedi'i gynllunio a'i gyflwyno'n wael o ddatblygu perthnasoedd a chysylltiadau cadarnhaol yn yr ardal
- diffyg adnoddau dwyieithog ar ddechrau'r prosiect i hwyluso ymgysylltiad

Rydym yn deall bod Tîm Rheoli OMIM wedi wynebu dechrau hynod o anodd i'r prosiect yn yr ardal, o ystyried y cyhoeddusrwydd a oedd wedi datblygu o amgylch y prosiect. Cytunodd y rhai a gyfrannodd at ein hymchwil fod nifer o ffactorau wedi gwneud hyn yn waeth:

- diffyg cynllunio ymlaen llaw gan bartneriaeth OMIM cyn ac ar ôl lansio er mwyn rheoli gwybodaeth, cyfathrebu, a sicrhau adnoddau, gan gynnwys 'pobl' er mwyn dechrau gweithio ar y prosiect yn yr ardal leol
- diffyg dealltwriaeth a defnydd o'r dulliau o reoli risg cyn ac ar ôl lansio er mwyn ymdrin â'r elfen ddadleuol ac i gefnogi staff newydd a oedd yn gweithio yn yr ardaloedd hynny
- diffyg gwerthfawrogiad o gyd-destun ehangach ffermio a defnydd tir yn yr ardal i adeiladu cynnig clir ar gyfer buddiolwyr posibl y prosiect, gan gynnwys ffermwyr a pherchnogion tir a rhanddeiliaid morol

Mae'n amlwg bod y partneriaid OMIM wedi gwrandao a dysgu o'u profiad, wrth symud ymlaen tuag at gam cynllunio'r prosiect ac yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Roedd cyfranwyr i'r gwerthusiad yn teimlo wrth edrych tua'r dyfodol, er mwyn sicrhau adlewyrchiad cywir o'r cyd-destun lleol a gweithio gyda rhanddeiliaid lleol, byddai angen i staff y prosiect:

- ddarparu gweithgareddau er mwyn adeiladu perthynas gyda grwpiau rhanddeiliaid lleol i gael gwell dealltwriaeth o'r cyd-destun lleol a grwpiau targed
- cynnal gweithgaredd dwfn ac eang i fapio rhanddeiliaid er mwyn cefnogi hyn
- defnyddio a phrynu sgiliau ac arbenigedd lleol lle bo hynny'n briodol
- cynnig allgymorth i brosiectau eraill yn yr ardal, nid prosiectau'n ymwneud â pherchnogion tir a rhanddeiliaid morol yn unig, ond hefyd prosiectau sy'n cefnogi gweithgareddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn yr ardal i ganfod cyfleoedd i gydweithio
- sefydlu ffyrdd o gynnwys rhanddeiliaid lleol yn nhrefniadau llywodraethu'r prosiect er mwyn cynnwys llais y gymuned

Rydym yn cytuno gyda'r awgrymiadau hyn ac rydym wedi gwneud argymhellion yn yr adrannau llywodraethu a phartneriaeth o fewn yr adroddiad hwn a fydd yn galluogi'r cyd-destun lleol i gael ei ystyried yn llawn yn ystod Cam Cynllunio'r Prosiect a thu hwnt.

Yn olaf, roedd rhai o'r bob y bûm yn ymgysylltu â nhw yn pryderu ynglŷn â natur a lefel y ddarpariaeth ar lawr gwlad yn yr ardal leol yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect, o ran derbyn y

cyngor cywir yn ymwneud â rheoli tir a môr, er mwyn sicrhau bod unrhyw ymyriadau a gynlluniwyd yn briodol. Rydym yn awgrymu y dylai OMIM ddefnyddio arbenigedd lleol i ddarparu'r cyngor hwn yn ymwneud â rheoli'r tir, ynghyd ag edrych ar ffyrdd y gall perchnogion tir a rhanddeiliaid yn yr amgylchedd morol gefnogi'r broses hon.

5.9 Sgiliau rheoli prosiect sylfaenol

Ein barn ni, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gennym, yw bod nifer o'r elfennau sylfaenol a fyddai'n ddisgwyliedig mewn prosiect o'r cymhlethdod a'r maint hwn, ar goll o'r trefniadau rheoli prosiect OMIM hyd at fis Awst 2019. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu nad oedd yr elfennau allweddol canlynol yn amlwg yn y ffordd yr oedd y partneriaid a'r sefydliad partner arweiniol yn rheoli'r prosiect:

cynllunio strategol - ychydig iawn o dystiolaeth a welsom fod y sefydliad partner arweiniol, y staff na'r grŵp llywio yn gweithredu'n strategol wrth reoli'r lansiad, sefydlu'r prosiect, ymgysylltu gyda'r gymuned leol, nac ymdrin â gwrthwynebiad i'r prosiect. Roedd nifer o'r sylwadau a glywsom yn ystod y gwerthusiad yn nodi bod staff a phartneriaid yn "diffodd tanau" ac yn ymateb i broblemau wrth iddynt godi. Rydym ni'n awgrymu y byddai mwy o amser i baratoi'n drylwyr ar gyfer y lansiad, gyda thîm eisoes yn ei le i ymateb yn yr ardal leol wedi bod yn ddull mwy strategol, a byddai cyfnod ymgysylltu hwy gyda rhanddeiliaid gyda llai o gyhoeddusrwydd wedi gallu bod yn fwy priodol o ystyried cyd-destun a natur y prosiect OMIM.

egllurder amcanion - er ein bod yn deall mai rhan o'r cynllun gwreiddiol oedd pennu'r amcanion gyda buddiolwyr posibl a rhanddeiliaid lleol, rydym yn awgrymu bod diffyg cyfathrebu amcanion yn glir wedi bod yn ddiffyg sylfaenol yn y ffordd y cafodd y prosiect ei gyflwyno i'r gymuned leol a buddiolwyr posibl. Dylai perchnogion tir, ffermwyr, rhanddeiliaid morol a phobl leol fod wedi cael syniad mwy clir, yn gynharach, o'r math o ymyriadau penodol a allai helpu i gyflawni amcanion OMIM. Dylai hyn fod wedi cael ei wneud wrth lansio'r prosiect a'i gyfathrebu'n fwy clir mewn trafodaethau cyn ac ar ôl lansio gyda rhanddeiliaid.

rheoli adnoddau - credwn y dylai'r bartneriaeth fod wedi bod yn gliriach, yn gynharach yn y prosiect, i gyfathrebu â rhanddeiliaid sut a phryd y byddai'r cyllid ELP yn cael ei wario o bosibl. Byddai esboniad mwy eglur a chynt o'r lefel o gefnogaeth ariannol ar gyfer ymyriadau ymarferol dros gyfnod y prosiect i berchnogion tir, a'r ffordd y gallai'r arian hwn gefnogi'r economi leol wedi bod o fudd. Byddai unrhyw amodau wedi gallu cael eu cyfathrebu. Byddai hynny wedi mynd i'r afael â'r cam-wybodaeth a chanfyddiadau bod partneriaid yn rhannu'r cyllid rhyngddynt ac wedi helpu i ymgysylltu'r rhai a oedd yn cymryd rhan gyda rhanddeiliaid lleol a buddiolwyr posibl.

pobl - rydym yn awgrymu bod y diffyg cynllunio ymlaen llaw er mwyn penodi staff ar adeg y lansiad yn gamgymeriad allweddol wrth sefydlu'r prosiect. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi canfod bod llawer o weithgareddau sylfaenol ar gyfer recriwtio, rheoli staff, adolygiadau staff o fewn RWB a'r gefnogaeth i staff o'r grŵp llywio wedi creu problemau difrifol i'r prosiect yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

arweinyddiaeth - mae ein gwerthusiad hefyd wedi amlygu nad oedd lefel sgiliau rheoli RWB ar y lefel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl gan bartner arweiniol ar brosiect o'r math a'r maint hwn. Roedd diffyg cyfathrebu rhwng staff o fewn RWB, diffyg tryloywder wrth ymdrin â phroblemau; diffyg cydnabyddiaeth o ddifrifoldeb risgiau, graddfa, pwysigrwydd, anwybyddu cyngor (o gwmpas amser y lansiad), ymatebion araf i ymholiadau am wybodaeth ac agwedd amddiffynnol tuag at feirniadaeth i'r grŵp llywio oll yn cael eu nodi fel problemau a oedd yn rhwystro cynnydd OMIM. Mae'n bwysig nodi bod cynrychiolwyr o RWB a gyfrannodd i'r gwerthusiad hwn yn cydnabod bod angen gwahanol fath o bartner arweiniol ar brosiect o'r

math hwn. Mae aelodau grwpiau llywio o sefydliadau partner eraill hefyd wedi cydnabod y gallent fod wedi gwneud mwy i fynd i'r afael â llawer o'r materion a amlygwyd uchod ac wedi darparu mwy o gefnogaeth i arwain y prosiect.

Rydym yn cydnabod mai RSPB Cymru yw'r prif bartner sy'n arwain prosiect OMIM erbyn hyn drwy Gam Cynllunio'r Prosiect, mae staff yn cael eu cyflogi ganddyn nhw i gefnogi'r prosiect. Rydym yn hyderus bod gan y sefydliad ddulliau rheoli prosiect sefydledig sy'n cael eu defnyddio ar gyfer OMIM, gan ddarparu sylfaen fwy cadarn i allu gweithio'n strategol a chefnogi staff i ddarparu'r prosiect.

5.10 Agweddau tuag at reoli risg

Roedd nifer o'r cyfranwyr yn codi diffyg rheoli risg fel problem sylweddol ar gyfer OMIM hyd at fis Awst 2019. Roedd y cyfweiliadau 1-1 hefyd yn rhoi tystiolaeth nad oedd technegau rheoli risg yn cael eu defnyddio o fewn y prosiect cyn y lansiad nac yn ystod 8 mis cyntaf 2019. Roedd risgiau wedi cael eu hamlygu yn y cais, ond ychydig iawn o dystiolaeth a welsom ni yn ein dadansoddiad o Adroddiadau Chwarterol a Blynnyddol i ELP bod risgiau'n cael eu meintioli, eu trafod na chynllunio ar eu cyfer yn y prosiect.

Ar lefel y grŵp llywio, roedd risgiau'n cael eu codi gan bartneriaid y prosiect, ac roedd nifer yn teimlo nad oedd y rhain yn cael eu hystyried o ddifrif nac yn cael eu gweithredu arnynt. Ein barn ni yw bod diffyg blaenoriaethu, cyfathrebu a rheoli risg gan y partner arweiniol a'r grŵp llywio yn faterion critigol. Mae enghreifftiau o'r risgiau na chafodd eu rheoli'n briodol a amlygwyd gan y rhai a gyfwelwyd yn cynnwys:

- *ar lefel strategol*: cydnabod yr angen i ailgynllunio'r prosiect yn gynt
- *ar lefel ymarferol*: tynnodd rhai staff OMIM yn ôl o gynnal cyfarfodydd gyda mwy na 3 pherson; o ganlyniad, daeth y cyfathrebu i ben ar adegau ar ôl lansio, o ganlyniad i wrthwynebiad lleol
- *ar lefel staffio*: ymdrin â'r risg i staff, a oedd yn teimlo da fygythiad ac y pryderu am eu diogelwch yn yr ardal leol, o ystyried lefel y gwrthwynebiad i'r prosiect.

Mae'r rhain yn risgiau amlwg a oedd angen cael eu rheoli mewn modd sensitif a gofalus gan bartneriaeth y prosiect. Yn anffodus, ein canfyddiadau ni yw na chawsant eu rheoli'n briodol naill ai ar lefel y grŵp llywio na lefel y partner arweiniol, gan arwain at densiwn o fewn y prosiect, gyda chanlyniadau negyddol wedyn o ran enw da'r prosiect a chapasiti ar gyfer darparu.

Rydym yn argymhell y dylai OMIM sefydlu system rheoli risg sy'n ymwneud â risgiau strategol ar gyfer y prosiect, yn ogystal â risgiau rheolaeth o ran darpariaeth y rhaglen. Ni ddylid defnyddio hwn fel ymarfer dibwrpas. Yn hytrach, dylid ei ddefnyddio fel adnodd rheoli i helpu partneriaid a staff i gynllunio, ymgysylltu a phennu'r ffordd ymlaen ar gyfer y prosiect drwy gydol y Cyfnod Cynllunio, yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a allai godi yn ystod 2020-22. Dylid rhannu arfer da o ran rheoli risg gan sefydliadau partner a phrosiectau tebyg i lywio'r uchod. Dylai'r Tîm Rheoli a'r Bwrdd Partneriaeth Prosiect adolygu hyn yn rheolaidd a gweithredu arno.

5.11 Rheolaeth Ariannol

Mae'n glir o'n dadansoddiad dogfennol a thrafodaethau gyda phartneriaid prosiect bod rheolaeth ariannol a phrosesau o fewn OMIM wedi cael eu trin mewn modd proffesiynol gan RWB a Coed Cadw (fel partner ariannol arweiniol), gyda'r cyllidwyr, ELP.

Ychydig iawn o sylwadau a gawsom ar agweddau ariannol y prosiect heblaw am y canlynol:

- sylwadau'n ymwneud â chyfathrebu'n glir gyda rhanddeiliaid ynglŷn â sut y byddai cyllid yn cael ei ddefnyddio (gweler y nodyn blaenorol)

- bod y broses i bartneriaid wneud cais i gronfa wreiddiol y prosiect i ymgymryd ag ymyriadau ar lawr gwlad wedi cymryd amser hir i ymsefydlu yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect, ac y gallai'r rhesymeg ar gyfer cefnogi'r rhain fod wedi cael ei chyfleu'n fwy eglur gan y Grŵp Llywio
- dylid cael ffin fwy pendant rhwng cyfraniadau y telir amdanynt a chyfraniadau a di-dâl i'r prosiect
- dylid bod yn hyblyg wrth gaffael arbenigedd a sgiliau lleol, lle bo hynny'n briodol i ledaenu budd economaidd y prosiect a chefnogi busnesau lleol
- dylid gwneud cofnodion o gyfraniadau di-dâl
- dylai partneriaid a rhanddeiliaid fod yn glir ynghylch eu cyfraniad eu hunain i'r prosiect o ran amser staff a gwirfoddolwyr

O ystyried mai un o nodau allweddol y prosiect yw cefnogi'r economi leol, rydym yn awgrymu y dylai OMIM, fel rhan o'r Cyfnod Cynllunio, asesu sut y gall ei weithgaredd gefnogi'r economïau ariannol ac anariannol, yn y gymuned, ar gyfer pobl leol sy'n cadw tir a rheolwyr tir. Bydd sicrhau eglurder a chadw cofnodion ynglŷn â sut y caiff cyllid OMIM ei ddefnyddio, sut y gallant ariannu'r prosiect ymhellach a chofnodi cyfraniadau taledig a di-dâl y rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect, yn cynorthwyo i sicrhau tryloywder a dysgu wrth symud ymlaen.

5.11 Edrych tua'r Dyfodol: Rheoli Prosiect

Gofynnwyd i'r rhai a fu'n cymryd rhan yn ein gwaith ymchwil i edrych ymlaen a chynnig eu syniadau ynglŷn â sut y gallai OMIM wella ei ddull o reoli prosiect yn ystod Cyfnod Cynllunio'r Prosiect yn 2020-22 a thu hwnt.

Mater allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r holl drafodaethau ac ymatebion oedd yr angen i ddeall a gwneud gwell defnydd o'r sgiliau sydd ar gael o fewn sefydliadau partner, rhanddeiliaid ac unigolion sy'n byw yn yr ardal leol. Roedd y sylwadau'n ymdrin â'r materion canlynol:

- bod y prosiect angen set o sgiliau cymhleth gan bartneriaid ac o'r ardal leol.
- Dylai OMIM ddefnyddio'r set sgiliau o fewn sefydliadau partner (nid y cynrychiolydd enwebedig yn unig) i gefnogi'r prosiect
- Dylai OMIM gynnal archwiliad sgiliau i ddeall:
 - y set sgiliau sy'n ofynnol i gyflawni'r prosiect
 - beth sydd ar gael o fewn y bartneriaeth bresennol ar gyfer OMIM
 - pa sgiliau sydd angen eu prynu i mewn
- Dylai OMIM fod yn hyblyg wrth benodi i swyddi i fynd i'r afael ag anghenion / cyd-destun lleol
- Dylai OMIM sefydlu cyllideb ar gyfer sicrhau gwasanaethau yn lleol

Rydym yn cytuno y dylai'r Cyfnod Cynllunio Prosiect archwilio'r sgiliau sy'n ofynnol a'r rhai sydd ar gael yn lleol er mwyn sefydlu cam nesaf y prosiect. Dylai hyn ganolbwyntio ar sgiliau ymarferol, rheoli a strategol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r prosiectau sy'n ystyried materion strategol megis cyrff arweiniol posibl yn yr ardal leol; materion ymarferol, megis sgiliau arolygu; a sgiliau rheoli tir a môr gan berchnogion tir a rhanddeiliaid morol. Dylai'r ffocws sgiliau hwn fod yn rhan allweddol o'r achos busnes dros OMIM wrth symud ymlaen.

6 - OMIM YN GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH - edrych ar yr hyn y gellir ei ddysgu o'r ffordd y bu partneriaid yn cydweithio rhwng 2017-20, ar gyfer y prosiect OMIM a sut y gallai lywio prosiectau eraill o'r math hwn ar raddfa'r dirwedd sy'n gweithio gyda nifer o bartneriaid.

6.1 Yn yr adran hon rydym yn cyfeirio at 'bartneriaid' fel sefydliadau a grwpiau a oedd yn rhan ffurfiol o brosiect OMIM, ar wahân i 'randdeiliaid', yr ydym yn eu diffinio fel sefydliadau a grwpiau eraill ac unigolion y bu'r partneriaid yn ymgysylltu â hwy, ac sy'n dal i gael eu cynnwys o fewn Cam Cynllunio'r Prosiect 2020-22.

6.2 Mae'r Adran hon yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar farn y rhai a fu'n cymryd rhan yn y gwerthusiad ynglŷn â gwahanol agweddau ar weithio mewn partneriaeth. Rydym yn defnyddio'r data i amlinellu'r hyn maen nhw'n ei ystyried yn faterion allweddol wrth symud ymlaen. Yn y dadansoddiad hwn rydym yn gwneud ein harsylwadau ein hunain ar y data hwn ac yn dwyn ynghyd nifer o argymhellion allweddol ar gyfer y prosiect OMIM yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth i lywio'r cam Cynllunio Prosiect. Gall OMIM ddefnyddio'r dadansoddiad i sicrhau bod y prosiect yn parhau i ddatblygu arfer da o ran gweithio mewn partneriaeth.

Roedd yr arolwg, cwestiynau'r gweithdy, y dadansoddiad o ddogfennaeth a'r cyfweiliadau'n cynnig arsylwadau ynglŷn â'r canlynol:

- y ffordd y bu partneriaid OMIM yn gweithio gyda'i gilydd
- perthynas gyda rhanddeiliaid yn y gorffennol ac erbyn heddiw
- effeithiau prosiect OMIM o fewn y sefydliadau partner
- edrych ymlaen: cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o'r ystyriaethau hyn

6.3 Y ffordd y bu partneriaid yn cydweithio yn y gorffennol a sut maen nhw'n cydweithio nawr

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, cyn ail-ddylunio OMIM, nad oedd llawer o'r sefydliadau partner yn gweld OMIM fel partneriaeth gydlynol neu'n 'adnodd cyfunol', gyda

- lefelau amrywiol o gefnogaeth, ymrwymiad ac adnoddau yn cael eu darparu gan sefydliadau partner i'r grŵp llywio, i'r tîm rheoli ac wrth gyflawni prosiectau.
- gwahanol resymau dros gymryd rhan yn y prosiect, ac, yn absenoldeb amcanion clir yn ystod y flwyddyn gyntaf, yn datblygu eu syniadau eu hunain am yr hyn y gallai'r prosiect ei gyflawni ar gyfer eu hamcanion sefydliadol unigol
- gwahanol lefelau o 'ymroddiad' i nodau'r prosiect, gyda diffyg eglurder ynghylch yr hyn y gallai gwahanol bartneriaid ei gynnig, boed hynny wedi'i dalu amdano neu heb ei dalu amdano, a'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig ganddynt
- diffyg cyfle i gyd-ddylunio'r prosiect gyda'r partner arweiniol
- diffyg profiad RWB wrth reoli rhaglen o'r math hwn a beirniadaeth o RWB yn y ffordd y cafodd y bartneriaeth ei sefydlu a'i arwain, a sut yr oeddent yn cyfathrebu gyda phartneriaid, gan achosi nifer ohonynt i gwestiynu eu cyfranogiad parhaus yn OMIM
- canfyddiad bod nifer o'r partneriaid yn ystyried prosiect OMIM fel 'busnes fel arfer', yn eu helpu i gyflawni eu hymyriadau adfer natur ar lawr gwlad
- diffyg cyfathrebu rhwng partneriaid y prosiect o ran tynnu'n ôl ac ymbellhau oddi wrth y prosiect wrth i broblemau ddod i'r amlwg a chynyddu
- oedi gwaith cydweithredol posibl i wneud gwaith adfer ecolegol ar lawr gwlad

Rydym yn deall bod y math yma faterion wedi parhau i achosi problemau i OMIM ar bob cam o'r prosiect nes iddo gael ei ail-ddylunio ar ôl mis Awst 2019.

Fe wnaethon ni ddarganfod bod rhai yn teimlo bod perthnasoedd gwaith cadarnhaol newydd rhwng sefydliadau partner wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i reoli risgiau, gwrthdaro ac 'anghydfod' wrth i'r prosiect wynebu trafferthion. Ers hynny, mae RSPB Cymru a Coed Cadw wedi cael eu hystyried yn gatalyddion allweddol er mwyn ail-ddylunio'r bartneriaeth i gynnig eglurder ynglŷn â rolau partneriaid ac ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda rhanddeiliaid. Ystyriwyd bod cyngor a chefnogaeth gan Nearly Wild i'r prosiect ar ddechrau 2020 hefyd yn hanfodol wrth helpu partneriaid prosiect i ail-ddylunio'r prosiect tuag at y Cyfnod Cynllunio.

Roedd y rhai a fu'n cymryd rhan yn ein gwaith ymchwil hefyd yn nodi rhai effeithiau cadarnhaol ehangach o ganlyniad i brosiect OMIM: bod yr anghydfod yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect wedi arwain at gynyddu proffil positif gweithgareddau cadwraeth (yn hytrach nag ail-wylltio) ymysg rhanddeiliaid; ac o ganlyniad, mae hyn wedi ail-ffocysu dadleuon yn ymwneud â bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol yn yr ardal leol, gan atgyfnerthu barn pobl leol yn ymwneud â buddion adfer a chadwraeth natur. Mae'r gweithgaredd hyd yma hefyd wedi atgyfnerthu dealltwriaeth partneriaid o'r berthynas rhwng amgylcheddau daearol a morol yn yr ardal.

Rydym ni'n awgrymu y dylai partneriaid o fewn y grŵp llywio fod wedi treulio mwy o amser wrth sefydlu'r prosiect yn edrych sut y byddai modd cydweithio a deall eu cryfderau, gwendidau, risgiau a phryderon a ffyrdd y byddent yn gallu cydweithio'n effeithiol. Dylai'r dull myfyriol hwn fod yn nodwedd allweddol o gynllunio wrth symud ymlaen hyd at a chan gynnwys 2022.

Mae cynllunio a chyflawni prosiectau yn effeithiol yn dibynnu ar arweinyddiaeth, cyfathrebu, penderfyniadau a darpariaeth effeithiol. Mae prosiectau o'r math hwn yn uchel eu proffil, yn gymhleth ac yn anodd eu rheoli. Credwn y dylai partneriaid y prosiect fod wedi cydnabod gwerth dod â phrofiad o reoli prosiectau llwyddiannus eraill ynghyd (e.e. Living Levels, Tir a Môr Llŷn - Land and Sea) a dod â'r gwersi a ddysgwyd i'r grŵp llywio a'r tîm rheoli.

Wrth i'r cam Cynllunio Prosiect barhau 2020-22, rydym yn awgrymu y dylai'r Bwrdd Partneriaeth Prosiect edrych yn rheolaidd ar y ffordd y mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd, p'un a yw'r dulliau cyfredol yn achosi unrhyw broblemau (neu gyfleoedd), a nodi ffyrdd i wella cefnogaeth partneriaid i'r prosiect yn ei gyfanrwydd.

- dylai hyn fod yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Prosiect, y Tîm Rheoli a'r Grŵp Cyflenwi, a dylid defnyddio mewnelediadau i lywio'r cam gweithredu posibl o 2022 ymlaen.
- dylai partneriaid drefnu digwyddiadau dysgu rhithwir o'u prosiectau tirwedd llwyddiannus eu hunain mewn manau eraill i lywio dull OMIM a gwahodd prosiectau lleol eraill i rannu yn y dysgu hwn i adeiladu capasiti yn yr ardal.

6.4 Perthynas â rhanddeiliaid ddoe a heddiw

Mae'n amlwg o'r data a gasglwyd yn y gwerthusiad hwn bod y ffordd y mae OMIM wedi cael ei reoli yn y gorfennol wedi cael effaith sylweddol ar y berthynas rhwng y sefydliadau partner a rhanddeiliaid, unigolion, grwpiau, cymunedau a sefydliadau sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal. Mae'r data hwn wedi rhoi cipolwg inni o sut mae partneriaid yn edrych ar yr agwedd hon ar eu gwaith gan awgrymu:

- bod bwloch mawr rhwng dyhead OMIM ar gyfer cyfranogiad rhanddeiliaid lleol yn y dogfennau cais a realiti rheoli perthynas aneffeithiol â rhanddeiliaid lleol yn ystod 8 mis cyntaf y prosiect.
- er gwaethaf llawer iawn o ymgysylltu cyn-lansio gan unigolion amrywiol wrth ddatblygu'r cais, roedd rhai'n dal i deimlo bod hyn yn annigonol er mwyn ymgysylltu'n briodol gyda rhanddeiliaid allweddol
- ni lwyddodd y partneriaid i ddeall lefel yr anfodlonrwydd a'r dicter ymhlith rhanddeiliaid, a difrifoldeb eu teimladau, yn enwedig yn ymwneud â materion perchnogaeth tir yn yr ardal, a

dylai hyn fod wedi cael ei gydnabod gan y partner arweiniol, y cyllidwyr a'r grŵp llywio cyn y lansiad; ac

- bod canfyddiadau'r gymuned, a pherchnogion tir yn enwedig, wedi cael eu dylanwadu gan y llyfr *Feral* gan George Monbiot, a'i gysylltiad gyda RWB, gan arwain at gamsyniadau o nodau OMIM
- bod y sefyllfa hon wedi effeithio ar lefel yr ymddiriedaeth rhwng y gymuned a phartneriaid, er bod nifer o bartneriaid eisoes wedi gweithio'n effeithiol gyda chymunedau lleol a pherchnogion tir yn yr ardal
- bod y ddatl yn ymwneud â'r prosiect wedi arwain at anawsterau i randdeiliaid eraill, a phartneriaid wrth ymgysylltu gyda buddiolwyr posibl yn eu prosiectau eu hunain
- bod diffyg eglurder ynglŷn â sut y byddai cyllid ELP yn cael ei arwain wedi arwain at ganfyddiad gan randdeiliaid mai sefydliadau partner fyddai prif fuddiolwyr y cyllid
- roedd diffyg rheolaeth dros ymgysylltiad Tîm Rheoli OMIM gyda phrosiectau tirwedd ac unigolion eraill gyda gwybodaeth ac arbenigedd yn yr ardal leol wedi lleihau nifer y cyfleoedd i OMIM adeiladu perthynas effeithiol gyda rhanddeiliaid lleol a grwpiau o berchnogion tir
- bod ffocws cyffredinol ar ganlyniadau a oedd yn cael eu harwain gan ecoleg wedi arwain at dan-werthfawrogi nodau economaidd a chymdeithasol y prosiect ymysg rhanddeiliaid
- bod partneriaid OMIM wedi dysgu bod angen cydbwysedd effeithiol rhwng arbenigedd lleol, arbenigedd mewnol a phrynu arbenigedd i mewn o du allan i'r ardal leol; ac mae angen i systemau cyllid fod yn hyblyg er mwyn prynu'r arbenigedd cywir ar gyfer anghenion lleol

Roedd partneriaid hefyd yn gweld canlyniadau cadarnhaol o'r sefyllfa a ddisgrifir uchod. Roedden nhw'n awgrymu bod y ddatl ynghylch OMIM wedi symbylu'r gymuned ffermio ac wedi dod â'r gymuned ynghyd. Sefydlwyd COPA, gan roi llais i farn y gymuned, ac i alluogi'r prosiect i ymgysylltu ac adeiladu perthynas a chyd-ddealltwriaeth. Maen nhw'n credu bod yr holl weithgaredd hwn wedi helpu i ddatblygu trafodaeth gyda pherchnogion tir ynglŷn â'r ffordd orau o symud ymlaen.

Mae'n amlwg i ni fod perthnasoedd â rhanddeiliaid wedi gwella ers mis Awst 2019, gyda phenodiad a gwaith effeithiol Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned. Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae parch mawr i'w gwaith. Mae cyfathrebu clir, sesiynau galw heibio a gwaith allgymorth wedi galluogi deialog gadarnhaol gyda COPA a sefydliadau lleol eraill wrth i'r prosiect esblygu i'r cam Cynllunio Prosiect.

Ein barn ni yw bod partneriaid wedi myfyrio'n helaeth ar y gwersi a ddysgwyd o'u profiad o weithio gyda rhanddeiliaid lleol. Mae'r profiad hwn wedi llywio'r cam Cynllunio Prosiect a'r rhaglen waith wrth symud ymlaen. Rydym yn deall bod dulliau llywodraethu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan o'r cam hwn, fodd bynnag, rydym ni'n awgrymu y byddai sicrhau bod rhanddeiliaid lleol yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd Partneriaeth Prosiect OMIM yn cefnogi'r gwaith o gyd-ddylunio'r prosiect, er mwyn sicrhau bod eu mewnwelediad yn bwydo i mewn i Gyfnod Cynllunio'r Prosiect ac yn helpu i siapio gweithgareddau OMIM tu hwnt i 2022. Dylai hyn gynnwys tri chynrychiolydd o'r ardal:

- un i weithredu fel eiriolwr a chysylltu â **thirfeddianwyr lleol a rheolwyr tir**, gan gynrychioli eu barn a chefnogi darpariaeth OMIM trwy eu harbenigedd mewn rheoli tir
- un sy'n gallu gweithredu fel eiriolwr a chysylltu â **chymunedau lleol**, gan gynrychioli eu barn a chefnogi darpariaeth OMIM gan roi mewnwelediad i ganlyniadau cymdeithasol
- un sy'n gallu gweithredu fel eiriolwr a chysylltu â **busnesau lleol**, gan gynrychioli eu barn a chefnogi darpariaeth OMIM gan roi mewnwelediad i ganlyniadau economaidd

6.5 Effaith OMIM o fewn y sefydliadau partner

Mae ein gwaith o gasglu tystiolaeth hefyd wedi arwain at ddata yn ymwneud â sut mae profiad partneriaid OMIM o'r prosiect, yr hyn a ddysgwyd yn dilyn y flwyddyn a'r ail-ddylunio wedi hynny wedi effeithio ar y ffordd y dylai eu sefydliadau eu hunain ymdrin â'r math hwn o brosiect ar raddfa'r dirwedd. Roedd y cyfranogwyr yn gallu edrych yn ôl ar y daith yr oedd eu sefydliadau wedi'i dilyn a'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad. Mae hyn wedi ein galluogi i nodi nifer o faterion pwysig i bartneriaid

prosiectau eu hystyried wrth i OMIM fynd yn ei flaen, ond hefyd i fod yn berthnasol i brosiectau tebyg o'r math hwn:

- yn aml, gall sicrhau bod rhannau allweddol o'r sefydliadau 'rhiant' yn cyfrannu at y prosiect ofyn am reolaeth a chyfathrebu mewnol gofalus gyda chydweithwyr ac aelodau o'r Bwrdd. Mae angen amser ac adnoddau i wneud hyn ac mae angen cynnwys a chynllunio ar gyfer hynny wrth lunio cynlluniau busnes ac ariannol.
- gall edrych yn ôl ar effaith prosiect ar y sefydliad gefnogi meddylfryd y sefydliad: Mae OMIM wedi helpu sefydliadau partner i drafod, profi a datblygu eu safleoedd a'u dulliau eu hunain o weithio mewn partneriaeth ar raddfa tirwedd yn gyffredinol; tuag at adfer natur ac ail-wylltio; ac i gefnogi prosiectau darpariaeth fel rhan o'u gwaith eirioli polisi.
- pwysigrwydd annog partneriaid i ddefnyddio technegau rheoli risg ar bob cam mewn prosiect, o'r cysyniad i'r cais a darparu, yn hytrach nad wrth edrych yn ôl mewn argyfwng yn unig; ac i'r technegau rheoli risg gael eu defnyddio fel adnoddau rheoli yn hytrach na bodloni gofynion mewn proses ymgeisio.
- nodi'n union pa adnodd y gall pob sefydliad unigol ei gyflwyno i gefnogi'r prosiect cyfan, i adolygu hyn yn rheolaidd ac addasu lle bo angen. Mae hyn yn ychwanegol at berson sydd wedi'i enwebu i eistedd ar grwpiau llywio, rheoli neu ddarparu. Mae'n bwysig defnyddio arbenigedd o fewn pob sefydliad, y tu hwnt i'r cynrychiolydd enwebedig.
- i bartneriaid gyfathrebu'n brydlon, wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, sut mae eu barn yn datblygu ynglŷn â'r rôl maen nhw'n gweld eu hunain yn chwarae yn y prosiect ar ôl 2022. Buan iawn fydd y dyddiad yma'n cyrraedd, a bydd gwirio'r mater hwn ymysg ei gilydd ar lefel Bwrdd Rhaglen yn hanfodol drwy gydol 2021-22.

Er bod y rhain yn wersi eang a ddysgwyd o'r prosiect OMIM, rydym ni'n awgrymu y dylid defnyddio'r un agwedd o ran y ffordd y mae partneriaid, rhanddeiliaid a grwpiau'n gweithio gyda'i gilydd, a byddai hynny'n cefnogi tryloywder a chyfathrebu yn ystod Cyfnod Cynllunio'r prosiect a thu hwnt.

Rydym yn argymhell, yn ystod y camau nesaf, y dylai OMIM annog partneriaid (a rhanddeiliaid) i fod yn benodol ynglŷn â'u rôl, eu cyfrifoldebau a'r adnoddau a'r arbenigedd y gallant eu cynnig i'r prosiect. Mae bod yn eglur ynglŷn â hyn yn helpu i reoli adnoddau, sgiliau ac arbenigedd, rheoli disgwyliadau ac osgoi camddealltwriaeth. Gellir gwneud hyn mewn gwahanol ffyrdd ar gyfer gwahanol bartneriaid a rhanddeiliaid - trwy femoranda dealltwriaeth, cylch gorchwyl neu lythyrau a gohebiaeth lai ffurfiol lle bo hynny'n briodol.

6.6 Edrych tua'r Dyfodol: Cyd-ddylunio neu Gyd-gynhyrchu?

Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn ein gwaith ymchwil i edrych tua'r dyfodol a chynnig syniadau ynghylch sut y byddai OMIM yn gallu gwella ei dulliau yn ystod Cam Cynllunio'r Prosiect ar gyfer 2020-22 a thu hwnt. Rhoddwyd llawer o bwyslais ar yr angen i gyd-ddylunio rhwng partneriaid a'r gymuned o hyn ymlaen. Os mai dyma'r dull y bydd OMIM yn ei fabwysiadu, dyma'r prif agweddau¹⁴ ar gyd-ddylunio y bydd angen eu hymgorffori

- sut mae prosiect OMIM yn ceisio barn a mewnwleidiad gan fuddiolwyr posibl sy'n cael eu hystyried yn 'arbenigwyr o fewn eu profiadau eu hunain' (yn yr achos hwn, perchnogion tir, cymunedau a busnes) ac i OMIM gydnabod eu dylanwad

¹⁴ Gweler Canllawiau What Works Well-being (2019) ar gyfer cyd-ddylunio a gofod cymunedol. Enghraifft o'r broses cyd-ddylunio

<https://whatworkswellbeing.org/wp-content/uploads/2020/02/Co-Design-Community-Spaces-Guidance-2.pdf>

- ffyrdd y gallai OMIM helpu'r grwpiau hyn i ymgysylltu gyda'i gilydd yn ogystal â gyda staff, i gyfathrebu, bod yn greadigol, rhannu mewnwelediad, profi syniadau newydd a chreu diwylliant o gyfranogi
- sut mae OMIM yn cefnogi'r rhanddeiliaid hyn er mwyn iddynt allu datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i allu cymryd rhan yn llawn yn y broses gyd-ddylunio

Rydym yn cydnabod o'n gwaith fod OMIM wedi cychwyn ar gyfnod newydd o weithio mewn partneriaeth lle mae mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu, gwell ymgysylltiad gyda COPA, grwpiau ac unigolion a gwell cysylltiadau gyda thrigolion a pherchnogion tir. Mae hon yn sylfaen gadarnhaol er mwyn i OMIM allu ymgysylltu'n briodol yn yr ardal leol a datblygu dull o gyd-ddylunio. Cafwyd nifer o awgrymiadau ynglŷn â'r hyn y dylid ei gyflawni drwy fframwaith cyd-ddylunio, gan gynnwys nifer o faterion sydd eisoes wedi cael eu codi mewn adrannau blaenorol, sy'n rhoi syniad o sut fyddai cyd-ddylunio OMIM yn edrych:

- *gweithgaredd strategol*: cytuno ar neges, nodau, amcanion, dulliau a chanlyniadau hirdymor posibl OMIM trwy gyd-ddylunio; diffinio/dychmygu cynnig economaidd mwy eglur i ymgysylltu â rhanddeiliaid/partneriaid economaidd; datblygu cynnig llawer mwy clir i fuddiolwyr
- *cyd-destun lleol*: cyfathrebu anffurfiol yn yr ardal darged, archwilio rheolaidd yn ystod y cyfnod cynllunio gyda phrosiectau lleol eraill i archwilio synergedd, a gorgyffwrdd gyda nodau ac amcanion sy'n esblygu'n gyson; cefnogi 'arweinyddion' lleol ar lawr gwlad; datblygu dealltwriaeth o'r cyd-destun, cyfleoedd a sensitifrwydd lleol
- *sefydliadol*: tryloywder a hyblygrwydd o ran buddiolwyr ariannol; cyfathrebu da; cyd-ddylunio trwy berthynas fewnol gyda sefydliadau partner; adnabod set sgiliau o fewn sefydliadau partner i gefnogi'r prosiect; bod yn glir ynglŷn â'r hyn y gall partneriaid ei gynnig, boed hynny wedi'i dalu amdano ac yn ddi-dâl; bod yn glir ynglŷn â disgwyliadau a chyfrifoldebau gwahanol bartneriaid
- *cyllidwyr*: mae cyllidwyr eisiau ariannu prosiectau llwyddiannus, felly mae angen i gyllidwyr ddysgu o'r broses gyd-ddylunio, yn enwedig yr angen am ofynion adnoddau ymlaen llaw, gan ddarparu lle i arbrofi a hyblygrwydd o ran amseriad yr hyn a ellir ei gyflawni.

Os mai cyd-ddylunio yw'r dull o ddewis ar gyfer darparu'r cam hwn o brosiect OMIM, mae angen i'r rhai sy'n ymwneud â'r prosiect ddeall yn union beth mae hyn yn ei olygu. Ceir perygl y bydd yn cael ei ddefnyddio fel ymadrodd eang ar gyfer gwahanol dechnegau o ymgysylltu gyda'r gymuned gan OMIM.

Mae yna arfer sy'n dod i'r amlwg hefyd mewn cyd-gynhyrchu yng Nghymru ac mewn mannau eraill a allai fod yn fwy addas ar gyfer OMIM wrth symud ymlaen. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio yn y sector cyhoeddus a'r sector cymunedol i ddod â gwahanol asiantaethau, partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth ynghyd fel rhan o broses gyfan ar gyfer cynllunio a darparu sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, gyda rhanddeiliaid yn cael rôl barhaus y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei gynllunio'r wreiddiol¹⁵¹⁶. Mae cyd-gynhyrchu hefyd yn cael ei ddefnyddio yn Natganiadau Ardal CNC Canolbarth a Gogledd Cymru fel rhan o ymgynghoriad gyda'r gymuned ffermio a gynhaliwyd y llynedd. Mae cyd-gynllunio wedi cael ei ddisgrifio fel a ganlyn: *yr hyn sy'n digwydd pan fo'r nwyddau*

¹⁵ <https://www.communityplanningtoolkit.org/sites/default/files/orkingTogetherR9.pdf>

¹⁶ <https://info.copronet.wales/>

craidd sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud rhywbeth yn cael eu dwyn ynghyd a'u cyfuno i greu rhywbeth newydd¹⁷."

Awgrymir y dylai staff OMIM dderbyn hyfforddiant mewn Cyd-ddylunio a Chyd-gynhyrchu i'w defnyddio fel rhan o'r Cyfnod Cynllunio Prosiect ac, yn ei dro, i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn eu gwaith gyda rhanddeiliaid, Bwrdd y Rhaglen, Grwpiau Rheoli a Chyflenwi. O ganlyniad, gall partneriaid a rhanddeiliaid yn yr ardal ddeall buddion dulliau cynhwysol o weithio a gallant gymhwyso hyn wrth symud ymlaen fel rhan o gam Cynllunio Prosiect 2021-22 a thu hwnt. Bydd hyn yn meithrin gallu ar gyfer gwaith cydweithredol yn yr ardal.

7- ARGYMHELLION AR GYFER OMIM - ar sail dadansoddiad, yn Adrannau 4-6, mae'r tîm gwerthuso yn cynnig argymhellion i OMIM ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu, rheoli prosiect a gweithio mewn partneriaeth fel rhan o gam cynllunio'r prosiect ar gyfer 2020-22 a gweithgaredd yn yr ardal yn y dyfodol. Mae'r canlynol yn crynhoi'r argymhellion a wnaethom yn ein dadansoddiad:

A1 - Pwrpas Eglur Mae angen i bwrpas OMIM fod yn eglur. Rydym yn argymhell y dylai Cyfnod Cynllunio'r Prosiect ar gyfer 2020-22 ddatblygu dealltwriaeth glir a chydffuddiannol o fuddion y prosiect hwn rhwng partneriaid y prosiect a rhanddeiliaid lleol. Mae angen i OMIM ddiffinio 'cynnig' mwy eglur i'r gymuned a rhanddeiliaid lleol mewn amgylcheddau tir a môr, gan egluro sut y bydd cydweithio o fudd iddyn nhw, i'w cymunedau ac i natur. Dylai eu rôl o fewn y 'cynnig' hwn fod yn dryloyw a dylid cytuno ar y rôl honno gyda nhw. Rydym yn awgrymu y dylai'r Bwrdd Partneriaeth a'r Tîm Rheoli arfaethedig herio eu hunain yn gyson ynghylch a yw'r "cynnig" yn dod yn gliriach yn ystod y cyfnod hwn.

A2 - dylid sefydlu Bwrdd Partneriaeth Prosiect er mwyn sicrhau bod partneriaid y prosiect yn gallu ymgysylltu a chael eu harwain gan arbenigedd lleol. Dylai hyn gynnwys cynrychiolwyr partneriaid prosiect, cynrychiolwyr o dirfeddianwyr lleol, buddiannau morol, safbwyntiau economaidd a chymdeithasol lleol, sefydliadau anllwywodraethol a swyddogion perthnasol ac aelodau o Gynghorau Gwynedd, Ceredigion a Powys. Er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect, bydd adeiladu perthynas gyda'r cynrychiolwyr hyn yn allweddol. Awgrymir y dylai uwch gynrychiolwyr partneriaid craidd y prosiect fwydo i'r grŵp a fyddai'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn i gyfnewid gwybodaeth ac ymgymryd â gweithgareddau i helpu i arwain y prosiect. Dylid gofyn i gyfranwyr weithredu fel eiriolwyr ar gyfer y prosiect gan rannu gwybodaeth gyda'u hetholwyr, aelodau a chydweithwyr am y prosiect a thynnu ar eu harbenigedd. Gellir darparu gwybodaeth i'r Bwrdd hwn rhwng cyfarfodydd er gwybodaeth, a gellir ymgynghori â'r Bwrdd ar gynlluniau'r dyfodol ar gyfer OMIM.

A3 - dylid sefydlu Grŵp Rheoli i ddarparu goruchwyliaeth, craffu, a chyfeiriad ar gyfer darparu'r prosiect yn ystod 2020-22, ac i sefydlu trefniadau rheoli priodol ar gyfer y prosiect ar ôl 2022. Dylai'r Grŵp hwn gefnogi staff y prosiect (a'r Grŵp Darparu - gweler isod) i reoli risg, arwain y gwaith cyfathrebu, goruchwyllo materion ariannol, adrodd i arianwyr, a gweithredu fel eiriolwyr ar ran OMIM. Dylai hwn gynnwys staff prosiect, gyda chefnogaeth staff arbenigol o sefydliadau partner, fel bod profiad partneriaid craidd wrth reoli prosiectau tebyg yn cael ei fwydo i'r grŵp hwn¹⁸. Dylai'r grŵp hwn gynnwys cynrychiolwyr lleol sydd â sgiliau neu fewnwelediad penodol a fyddai'n cefnogi rheolaeth y prosiect. Gall y grŵp hwn lywio gweithgareddau'r Bwrdd a dylent gwrdd bron bob mis, gydag agendâu, camau gweithredu ac adroddiadau ariannol clir. Dylai'r grŵp hwn barhau trwy gydol 2020-22 a dylid sefydlu grŵp tebyg ar gyfer gweithgareddau ar ôl 2022.

¹⁷ <https://www.stakeholderdesign.com/co-production-versus-co-design-what-is-the-difference/>

¹⁸ Gan ddysgu o brosiectau llwyddiannus fel Living Levels yng Ngwent, Tir a Môr Llŷn- Land and Sea sydd wedi llwyddo i ymgysylltu gyda diddordebau lleol o fewn eu fframweithiau llywodraeth <https://www.livinglevels.org.uk/> <https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/local-action-groups-and-projects/projects/tir-mor-llyn-land-and-sea>

A4 - dylid sefydlu Grŵp Darparu sy'n cynnwys tîm y prosiect, a staff o sefydliadau sy'n gweithio ar lefel y gymuned yn yr ardal. Byddai'r Grŵp hwn yn cefnogi'r gweithgareddau a amlinellwyd yn y cam Cynllunio Prosiect gan gynnwys: ymgysylltu â'r gymuned leol; mapio cynefinoedd; datblygu strategaeth, ymgysylltu â pherchnogion/stiwardiaid perthnasol a defnyddwyr adnoddau; gweithio ar fentrau natur a chadwyni cyflenwi; nodi ymyriadau posibl. Dyma sut mae gwybodaeth leol arbenigol yn bwydo i mewn i OMIM ar lefel ymarferol. Mae'n hanfodol bod y grŵp hwn hefyd yn cynnwys perchnogion tir lleol, y rhai sy'n gweithio yn yr amgylchedd morol, ac yn derbyn cyngor lleol ynglŷn â deilliannau economaidd a chymdeithasol unrhyw weithgareddau arfaethedig. Dylai'r grŵp hwn gwrdd yn rhithiol unwaith y mis i gyfnewid gwybodaeth, cynllunio a chynhyrchu diweddariadau byr ar gyfer y Grŵp Rheoli. Mae'r grŵp hwn yn cefnogi gweithrediad y prosiect o ddydd i ddydd drwy negeseuon e-bost, galwadau ffôn, a thrafodaethau rhithwir.

A5 - Cyfrifoldebau ac Adnoddau Rydym yn argymhell y dylai OMIM yn ystod y camau nesaf, annog partneriaid (a rhanddeiliaid) i fod yn benodol ynghylch eu rôl a'u cyfrifoldebau a pha adnoddau ac arbenigedd y gellir eu cynnig i'r prosiect, a dylai hyn gael ei adolygu'n rheolaidd. Mae bod yn eglur ynglŷn â hyn yn helpu i reoli adnoddau, sgiliau ac arbenigedd, rheoli disgwyliadau ac osgoi camddealltwriaeth. Gellir gwneud hyn mewn gwahanol ffyrdd ar gyfer gwahanol bartneriaid a rhanddeiliaid - trwy femoranda dealltwriaeth, cylch gorchwyl neu lythyrau a gohebiaeth lai ffurfiol lle bo hynny'n briodol.

A6 - Rheoli Risg Rydym yn argymhell y dylai OMIM sefydlu system rheoli risg sy'n ymwneud â risgiau strategol ar gyfer y prosiect, yn ogystal â risgiau rheolaeth o ran darpariaeth y rhaglen. Ni ddylid defnyddio hwn fel ymarfer dibwrpas. Yn hytrach, dylid ei ddefnyddio fel adnodd rheoli i helpu partneriaid a staff i gynllunio, ymgysylltu a phennu'r ffordd ymlaen ar gyfer y prosiect drwy gydol y Cyfnod Cynllunio, yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a allai godi yn ystod 2020-22. Dylid rhannu arfer da o ran rheoli risg gan sefydliadau partner a phrosiectau tebyg i lywio'r uchod. Dylai'r Tîm Rheoli a'r Bwrdd Partneriaeth Prosiect adolygu hyn yn rheolaidd a gweithredu arno.

A7 Dadansoddiad Sgiliau - dylai'r Cyfnod Cynllunio Prosiect archwilio'r sgiliau sy'n ofynnol a'r rhai sydd ar gael yn lleol er mwyn sefydlu cam nesaf y prosiect. Dylai hyn ganolbwyntio ar sgiliau ymarferol, rheoli a strategol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r prosiectau sy'n ystyried materion strategol megis cyrff arweiniol posibl yn yr ardal leol; materion ymarferol, megis sgiliau arolygu; a sgiliau rheoli tir a môr gan berchnogion tir a rhanddeiliaid morol. Dylai'r ffocws sgiliau hwn fod yn rhan allweddol o'r achos busnes dros OMIM wrth symud ymlaen.

A8 Effaith Economaidd O ystyried mai un o nodau allweddol y prosiect yw cefnogi'r economi leol, rydym yn awgrymu y dylai OMIM, fel rhan o'r Cyfnod Cynllunio, asesu sut y gall ei weithgaredd gefnogi'r economïau ariannol ac anariannol, yn y gymuned, ar gyfer pobl leol sy'n cadw tir a rheolwyr tir. Bydd sicrhau eglurder a chadw cofnodion ynglŷn â sut y caiff cyllid OMIM ei ddefnyddio, sut y gallant ariannu'r prosiect ymhellach a chofnodi cyfraniadau sy'n cael eu talu amdanynt a chyfraniadau a di-dâl y rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect, yn cynorthwyo i sicrhau tryloywder a dysgu wrth symud ymlaen.

A9 Cyd-ddylunio a Chyd-gynhyrchu - awgrymir y dylai staff OMIM dderbyn hyfforddiant mewn Cyd-ddylunio a Chyd-gynhyrchu i'w ddefnyddio fel rhan o'r Cyfnod Cynllunio Prosiect ac, yn ei dro, i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn eu gwaith gyda rhanddeiliaid, Bwrdd y Rhaglen, Grwpiau Rheoli a Chyflenwi. O ganlyniad, gall partneriaid a rhanddeiliaid yn yr ardal leol ddeall buddion dulliau cynhwysol o weithio, a defnyddio'r ddealltwriaeth hon at y dyfodol fel rhan o'r cyfnod Cynllunio'r Prosiect ar gyfer 2021-22 a thu hwnt. Bydd hyn yn meithrin gallu ar gyfer gwaith cydweithredol yn yr ardal.

A 10 Llywodraethu Atblygol¹⁹ Wrth i'r cam Cynllunio Prosiect barhau 2020-22, fel bod y Bwrdd Partneriaeth Prosiect yn edrych yn rheolaidd ar y ffordd y mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd, p'un a yw'r dulliau cyfredol yn achosi unrhyw broblemau (neu gyfleoedd), ac i nodi ffyrdd i wella cefnogaeth partneriaid i'r prosiect yn ei gyfanrwydd.

- dylai hyn fod yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Prosiect, y Tîm Rheoli a'r Grŵp Cyflenwi, a dylid defnyddio mewnwelediadau i lywio'r cam gweithredu posibl o 2022 ymlaen.
- dylai partneriaid drefnu digwyddiadau dysgu rhithwir o'u prosiectau tirwedd llwyddiannus eu hunain mewn manau eraill i lywio dull OMIM a gwahodd prosiectau lleol eraill i rannu yn y dysgu hwn i adeiladu capasiti yn yr ardal.

¹⁹ **Llywodraethu Atblygol** – dull meddwl mwy hunanymwybodol a beirniadol sy'n agored i sawl safbwynt, gan gwestiynu dibenion a dulliau sut mae polisi / prosiect yn cael ei gyflawni yn barhaus. Stirling, A. (2006) Precaution, foresight, sustainability: Reflection and reflexivity in the governance of science and technology, yn: J.-P. Voss, D. Bauknecht & R. Kemp (Eds) Reflexive Governance for Sustainable Development, tud. 225–272 (Cheltenham: Edward Elgar).

Atodiad A - Nodau gwreiddiol y Prosiect OMIM (fel y nodir yng Nghylch Gorchwyl Gwerthusiad OMIM)

Y bwriad gwreiddiol oedd mai prosiect Summit to Sea/O'r Mynydd Môr (OMIM) fyddai'r prosiect cyntaf ym Mhrydain i sefydlu ecosystem ddeinamig o'r copaon i'r môr. Y syniad yw sefydlu parth llawn natur dros ardal o leiaf 100 ha a 20km² o fôr o gopa Pumlumon - copa uchaf canolbarth Cymru - i lawr drwy ddyffrynnoedd coediog i Aber Dyfi ac allan i Fae Ceredigion. Cynnig model arloesol ar gyfer cadwraeth a rheoli adnoddau naturiol a fyddai modd ei ailadrodd mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a'r DU.

Y nod yw darparu gwasanaethau ecosystem trwy adfer prosesau naturiol, cefnogi'r trawsnewidiad i economi gydnherth, hunangynhaliol sy'n seiliedig ar natur, gan ddarparu dyfodol cynaliadwy i gymunedau lleol gyda ffrydiau incwm gwahanol, yn ogystal â chreu cyfleoedd i bobl ailgysylltu gyda natur wyllt.

Dyma oedd amcanion y prosiect:

1. Amcan 1: Dechrau ar broses o adferiad ecolegol ar ardal 10,000 ha o dir a 20km² o fôr fel ardaloedd craidd neu ardaloedd clustogi gyda chytundeb ar y cyd gyda pherchnogion tir/stiwardiaid.
2. Amcan 2: Sefydlu mentrau ac isadeiledd natur cam cyntaf sy'n gysylltiedig â chyrchfan eiconig OMIM gan ddarparu ffrydiau incwm gwahanol fel rhan o economi drawsnewidiol
3. Amcan 3: Sefydlu partneriaeth OMIM rhwng perchnogion tir/stiwardiaid a rhanddeiliaid allweddol gyda mecanweithiau llywodraethu effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd a rhannu referniw / buddion
4. Amcan 4: Ymgysylltu â chymunedau lleol a'r cyhoedd yn ehangach wrth hysbysu, siapio, monitro, dysgu am OMIM ac elwa ohono
5. Amcan 5: Sicrhau bod mecanweithiau polisi/deddfwriaethol ar waith sy'n cefnogi cyflwyno dull hirdymor OMIM

Atodiad B - Cam Cynllunio Prosiect OMIM Presennol ar gyfer 2020-22 (wedi'i gymryd o Gais Grant ELP 2020)

Mae'r prosiect O'r Mynydd i'r Môr yn ceisio am gyllid ar gyfer cam datblygiad llawn i'w gynnal dros y 12-24 mis nesaf mewn ymateb i statws presennol y prosiect. O fewn y cyfnod cynllunio hwn y nod trosfwaol fydd gweithio tuag at ganfod sut y gall y prosiect weithio gyda rhanddeiliaid, perchnogion tir a defnyddwyr môr lleol i gyd-gynhyrchu parth sy'n llawn natur o gopa Pumlumon - y pwynt uchaf yng Nghanolbarth Cymru - i lawr trwy ddyffrynnoedd coediog i Aber Dyfi ac allan i Fae Aberteifi, Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith o gysylltu cynefinoedd presennol trwy eu gwella a'u hadfer, gan ddarparu ardal forol wedi'i rheoli ar y cyd i wella rheolaeth ar gyfer adfer cynefinoedd morol, a chysylltu hyn, trwy gynefinoedd arfordirol a throsiannol, â'r arwynebedd tir.

Byddwn yn ehangu'r gwaith o adfer prosesau naturiol ar draws yr ardal hon drwy adfer mawndiroedd, afonydd, ardaloedd morol a choetiroedd. Bydd patrymau a dosraniad naturiol rhywogaethau'n cael eu hannog wrth i'r cynefin newid, a bydd rhywogaethau brodorol yn ehangu ac ymledu. Nod y prosiect yw darparu gwasanaethau ecosystem sylweddol ar draws y dalgylch. Bydd y risg o lifogydd i gymunedau i lawr yr afon yn cael ei leihau trwy ymyriadau a ddatblygir gyda rhanddeiliaid lleol ac yn debygol o gynnwys adfer corsydd a choetiroedd brodorol, llystyfiant ar lannau afonydd a phlannu prysgwydd. Bydd y gallu i ddal a storio carbon, ynghyd ag ansawdd dŵr yn gwella'n sylweddol, a bydd defnyddwyr hamdden (lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd) yn elwa o ran iechyd a lles.

Mae'r canlyniadau diwygiedig ar gyfer y prosiect fel a ganlyn:

1. Mae cymunedau lleol a'r cyhoedd ehangach wedi cael mewnbwn ystyrion i'r weledigaeth a'r amcanion, gan lywio, siapio a dysgu am y potensial ar gyfer gweithgareddau natur sy'n cyd-fynd â diwylliant a gwerthoedd lleol.
2. Mae cynefinoedd yn cael eu mapio ac mae strategaeth yn cael ei ddatblygu i gynyddu cysylltedd rhwng ecosystemau sy'n llawn bywyd gwyllt ac ymyriadau positif o safbwynt ecolegol. Cefnogi cysylltiadau newydd a phresennol rhwng ardaloedd daearol a morol tuag at welliant ecolegol parhaus trwy ymgysylltu â pherchnogion/stiwardiaid a defnyddwyr adnoddau perthnasol.
3. Mae mentrau'n seiliedig ar natur yn cael eu nodi, ynghyd â chyfleoedd i rwydweithio i ddatblygu cadwyni cyflenwi pellach sy'n seiliedig ar natur.
4. Nodi/sefydlu'r bartneriaeth leol i ddarparu'r prosiect cyfan, gan gynnwys cytuno ar fecanweithiau llywodraethu effeithiol er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd, rhannu gweledigaeth a rhannu buddion/refeniw.
5. Ymyriadau posibl y prosiect i gael eu harwain gan anghenion lleol ac i gefnogi polisi cenedlaethol. Ymyriadau i ymgysylltu gyda chyrrff sector cyhoeddus lle bo'n briodol.
6. Datblygu cynllun monitro a gwerthuso traws-sector ar gyfer y prosiect, gydag arbenigwyr o Gyrrff Anllywodraethol, y llywodraeth a sefydliadau academaidd.
7. Paratoi cynnig am gyllid, os yn briodol, ar gyfer y prosiect yn llawn, ynghyd â dogfennau i gefnogi, a'i gyflwyno i'r ELP.

Atodiad C: Y Tîm Gwerthuso

Mae'r Tîm Gwerthuso yn cynnwys y partneriaid canlynol:

Mae **Fforwm Arfordirol Sir Benfro** (PCF) yn bartneriaeth arfordirol sydd wedi ennill sawl gwobr ac wedi bod yn datblygu arfer gorau arloesol ym maes rheoli arfordir ers 2000. Mae PCF yn gweithio ar draws sbectwm eang o sectorau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd gan gynnwys ansawdd dŵr a thaliadau am wasanaethau ecosystemau; ynni morol; hamdden gynaliadwy; cadwraeth ac adfer; newid ymddygiad ac addysg newid yn yr hinsawdd, ac mae'r fforwm wedi cyflawni prosiectau a gwaith sy'n cael ei ystyried yn arfer gorau yn genedlaethol a thu hwnt i'r DU gan gynnwys y Cod Morol, Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro, Mapio Gweithgareddau Cymru ac Ynni Morol Cymru. Mae PCF yn ymgymryd â gwaith ymgynghori yn rheolaidd, yn aml yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r enghreifftiau'n amrywio o Astudiaethau Canfyddiad Rhanddeiliaid blynyddol (Porthladd Aberdaugleddau); canfod rhanddeiliaid ac ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer prosiect Achub Cefnfor Morwellt WWF; Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ran Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru - Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y briff hwn, bu PCF yn arwain ar y gwaith rheoli prosiect ar gyfer y gwerthusiad, yn ogystal â chynnig mewnbwn ar gyfer dadansoddi'r data ac ysgrifennu'r adroddiad. Cyflawnwyd y rôl hon gan yr Uwch Reolwr Prosiect **Paul Renfro**.

Sefydlwyd Netherwood Sustainable Futures (NSF) yn 2007, ac mae'n cael ei redeg gan **Dr. Alan Netherwood**. Mae'r cwmni'n darparu cyngor a gwaith ymchwil arbenigol yn ymwneud â datblygu cynaliadwy, addasu hinsawdd, SMNR, polisi cyhoeddus, tueddiadau'r dyfodol a chreu rhagolygon. Darperir cefnogaeth i'r llywodraeth, y sector cyhoeddus, trydydd sector a'r sector cymunedol ar gyfer datblygu strategaeth, polisi, prosesau ac arferion sy'n cefnogi cynaliadwyedd a darpariaeth hirdymor - mae hyn wedi cynnwys darparu cyngor i Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, CNC, PSB, Parciau Cenedlaethol a Chyrff Anllywodraethol yng Nghymru. Maent wedi cwblhau gwerthusiadau ar ran Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Grant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, y Cynllun Datblygu Cynaliadwy a'r Cynllun Addasu Hinsawdd diweddar. Mae NSF yn gweithio gyda Wellbeing Planner (WBP) ar werthusiad o brosiect tirwedd SMS y Prosiect Adeiladu Gwydnwch mewn Dalgylchoedd (BRICs) yn ardal Aberdaugleddau (gyda PCF fel partner craidd). Mae gan NSF brofiad helaeth o weithio ar y cyd â WWF Cymru ar ôl troed ecolegol, newid yn yr hinsawdd, polisi SMNR, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn fwyaf diweddar ar y berthynas rhwng yr amgylchedd a'r economi sylfaenol. Mae Alan wedi bod yn gweithio'n ddiweddar gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru ar ddull rhanbarthol o liniaru'r effaith ar yr hinsawdd gan gynnwys argymhellion ar gyfer dal a storio carbon trwy reoli tir. Mae Alan yn Gymrawd Ymchwil er Anrhydedd ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n arbenigo mewn llywodraethu ar gyfer datblygu cynaliadwy. Bu Alan yn arwain y gwaith ymchwil ac ysgrifennu'r adroddiadau drafft a'r adroddiadau terfynol, yn seiliedig ar fewnbwn PCF a WBP.

Mae Dafydd Thomas yn hwylusydd profiadol ac yn ymchwilydd ansoddol cymwys. Sefydlodd gwmni **Wellbeing Planner** (WBP) yn 2013 i ddarparu gwasanaeth annibynnol, wedi'i deilwra, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, ar gyfer datblygiad sefydliadol a phrosiectau, gwerthuso a gwaith ymchwil. Mae ganddo dros 25 mlynedd o brofiad o weithio gyda gwahanol grwpiau ledled Cymru gan ddefnyddio technegau cyfranogi i werthuso ymyriadau, datblygu prosiectau a chyflwyno newid. Mae Wellbeing Planner wedi gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, cymunedau ac asiantaethau yng Ngwynedd ac Ynys Môn ar gynllunio ar gyfer addasu'r hinsawdd a Datganiadau Ardal yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth Cymru. Mae Dafydd ac Alan yn cydweithio ar werthuso prosiect tirwedd BRIC. Mae gan Dafydd gefndir academiaidd mewn Cefnforeg Gymhwysol a Bioleg Forol. Mae Dafydd yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, ac yn hwylusydd ac ymchwilydd ansoddol profiadol. Bu Dafydd yn trefnu ac yn darparu ymgysylltiad cyfranogol ar-lein gan ddefnyddio MeetingSphere.

ATODIAD E - CWESTIYNAU A OFYNNWYD YN Y GWERTHUSIAD

Defnyddiwyd y cwestiynau a'r llinellau ymholi canlynol i gasglu data ar gyfer y dadansoddiad.

Arolwg MeetingSphere

1. Esboniwch yn fyr sut/pam yr ydych chi'n rhan o brosiect OMIM
2. Sut mae OMIM yn gysylltiedig â'ch gweithgareddau chi, neu weithgareddau eich sefydliad?
3. A oes gennych unrhyw farn ynglŷn â sut y cafodd prosiect OMIM ei gynllunio?
4. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r strwythurau a ddefnyddiwyd i reoli OMIM?
5. A oes unrhyw agweddau penodol ar ddarpariaeth y prosiect yr hoffech roi sylwadau arnynt?
6. Sut mae OMIM wedi effeithio ar weithio mewn partneriaeth?
7. Beth allai fod wedi gwella dull OMIM o gyflawni ei nodau?

Gweithdy # 1

1. Beth oeddech chi'n cytuno ag ef, anghytuno ag ef, a beth sydd ar goll o ganlyniadau'r arolwg?
2. Beth oedd yn gweithio'n dda gyda phrosiect O'r Mynydd i'r Môr?
3. Beth nad oedd yn gweithio cystal gyda phrosiect O'r Mynydd i'r Môr?
4. Ar beth ddylem ni ganolbwyntio yn yr ail Weithdy?

Gweithdy # 2

1. Beth allwn ni ei ddysgu o brosiect O'r Mynydd i'r Môr ar gyfer prosiectau eraill o'r math hwn o ran llywodraethu, rheoli prosiect a gweithio mewn partneriaeth?
2. Sut ddylai OMIM gynllunio ymlaen o ran llywodraethu, rheoli prosiectau a phartneriaethau?

1-1 Themâu Cyfweiliadau Lled-strwythuredig

- sefydlu
- y cam dylunio
- lansiad a'r flwyddyn gyntaf
- llywodraethu
- arweinyddiaeth
- darparu'r prosiect
- gweithio mewn partneriaeth
- ail-ddylunio'r prosiect
- gweithgareddau presennol
- edrych tua'r dyfodol.